# Polisi Diogelu Corfforaethol



CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL

Cyngor Sir y Fflint

Polisi Diogelu Corfforaethol

| | |
|---|---|
| **Perchennog y ddogfen ar gyfer adolygu** | Ymgynghorydd Polisi Strategol |
| **Dyddiad gweithredu** | 20.10.2017 |
| **Dyddiad yr adolygiad diwethaf** | Tachwedd 2022 |
| **Dyddiad y diwygiad diwethaf** | Tachwedd 2022 |
| **Fersiwn** | 2 .1 |
| **Dyddiad yr adolygiad nesaf** | Tachwedd 2025 |

# Polisi Diogelu Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| 1.0 Cyflwyniad | 4 |
| 2.0 Cyd-destun Deddfwriaethol | 4 |
| 3.0 Amcanion ac Egwyddorion | 5 |
| 4.0 Rolau a Chyfrifoldebau | 6 |
| 5.0 Rôl Aelodau Etholedig | 11 |
| 6.0 Y Broses Adrodd | 11 |
| 7.0 Cyfathrebu | 15 |
| 8.0 Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol | 15 |
| 9.0 Adrodd, Monitro ac Adolygu | 16 |

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Deddfwriaeth |
| Atodiad 2 | Arwyddion o Gamdriniaeth a Chaethwasiaeth Modern |
| Atodiad 3 | Cod ymddygiad ac arferion gweithio diogel |
| Atodiad 4 | Canllawiau Arferion Da ar gyfer Cynghorwyr |
| Atodiad 5 | Ffurflen Atgyfeirio - Oedolion |
| Atodiad 6 | Awgrymiadau Gwych ar gyfer Llunio Adroddiad Diogelu |
| Atodiad 7 | Awgrymiadau Da ar gyfer cofnodion da |
| Atodiad 8 | Llwybr Caethwasiaeth Fodern |
| Atodiad 9 | Cylch Gorchwyl Panel Diogelu Corfforaethol |

**Polisi Diogelu Corfforaethol**

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Mae diogelu oedolion, pobl ifanc a phlant yn flaenoriaeth ar gyfer y Cyngor; mae'r Cyngor yn cymryd ei gyfrifoldebau i gadw pobl yn ddiogel o ddifrif. Mae'r Polisi Diogelu Corfforaethol yn darparu fframwaith ar gyfer holl wasanaethau'r Cyngor i ddiogelu ac amddiffyn plant ac oedolion. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu polisi Cyngor Sir y Fflint ar ganfod ac ymateb i bryderon o ran diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion.

1.2 Mae "Diogelu" yn gysyniad ehangach nag amddiffyn plant ac oedolion ac mae'n ymwneud â hyrwyddo: -

- Iechyd corfforol, emosiynol a meddyliol
- Diogelu rhag niwed ac esgeulustod
- Addysg, hyfforddiant a hamdden
- Cyfrannu at gymdeithas.
- Lles economaidd a chymdeithasol

Mae'n cynnwys popeth y gall y Cyngor ei wneud i gadw pobl yn saff, gan gynnwys lleihau'r risg o niwed a damweiniau, gweithredu i ymdrin â phryderon am ddiogelwch a sicrhau fod pobl yn tyfu ac yn byw mewn amgylchiadau diogel.

1.3 Mae cadw plant ac oedolion yn ddiogel yn fusnes i bawb, rydym i gyd yn rhannu cyfrifoldeb yn gorfforaethol ac yn unigol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion a'u diogelu rhag eraill a all fod yn eu cam-drin. Er mai'r Gwasanaethau Cymdeithasol yw'r gwasanaeth sy'n arwain wrth ymdrin ag ymholiadau am honiadau/ pryderon bod plant ac oedolion yn dioddef o niwed sylweddol, mae gan bawb gyfrifoldeb i ddiogelu lles plant, pobl ifanc ac oedolion, beth bynnag fo'u rôl.

1.4 Mae gan holl weithwyr y Cyngor, aelodau etholedig, contractwr a gwirfoddolwyr sy'n dod i gyswllt gyda phlant neu oedolion mewn risg yn ystod eu gwaith, ddyletswydd gofal i ddiogelu a hyrwyddo eu lles ac i weithio er mwyn atal, canfod ac adrodd am esgeulustod a chamdriniaeth. Mae'r polisi yn gymwys i weithwyr Sir y Fflint, cynghorwyr, gwirfoddolwyr a sefydliadau a gomisiynir i ddarparu gwasanaethau ar ran y Cyngor. Mae hefyd yn gymwys i sefydliadau sy'n derbyn grantiau gan y Cyngor.

1.5 Mae'n ofynnol i ysgolion ddatblygu eu polisïau Diogelu eu hunain gan gynnwys ei gweithwyr, contractwyr a gwirfoddolwyr eu hunain.

## 2.2 Cyd-destun Deddfwriaethol

2.1 Mae cyfrifoldebau'r Cyngor i gadw oedolion a phlant yn ddiogel wedi'i nodi mewn amrywiaeth o ddeddfwriaeth a Chodau Ymarfer, mae'r rhain

wedi'u nodi yn Atodiad 1. Mae'r polisi wedi'i gefnogi gan y polisïau a gweithdrefnau mewnol canlynol:

Polisi Gwasanaeth i Gwsmeriaid

Polisi Amrywiaeth a Chydraddoldeb

Polisi Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Polisi Defnydd y Rhyngrwyd

Polisi Rheoli Ymddygiad Amhriodol

Polisi Recriwtio a Dewis

Polisi Diogelu (Ysgolion)

Polisi Tecstio Diogel

Polisi Cyfryngau Cymdeithasol

Polisi Rhannu Pryderon

## 3.0 Amcanion ac Egwyddorion y polisi hwn

3.1 Mae amcanion y Polisi Diogelu a'r Canllawiau fel a ganlyn:-

- Darparu fframwaith i atal, canfod ac adrodd am esgeulustod a chamdriniaeth.
- Sicrhau bod camau priodol yn cael eu gweithredu i ddelio ag unrhyw honiadau neu bryderon.
- Sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu cynllunio a'u darparu mewn ffordd sydd yn diogelu plant ac oedolion
- Mae gweithwyr yn gallu cynnal eu hunain yn ddiogel.
- I amlygu'r modd y mae Cyngor Sir y Fflint yn ymgymryd â'i ymrwymiadau cyfreithiol ym maes diogelu plant ac oedolion.
- Rhoi sicrwydd i aelodau'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth, cynghorwyr, gweithwyr a phobl sy'n gweithio ar ran y Cyngor fod trefniadau clir mewn grym i ddiogelu ac amddiffyn plant ac oedolion.
- Rhoi canllawiau clir i weithwyr a chynghorwyr y Cyngor er mwyn gallu canfod pan fo plentyn neu oedolyn mewn risg o niwed.

3.2 Yr egwyddorion sy'n tanategu'r polisi hwn a'i weithrediaeth yw:

- Rydym yn credu bod pob plentyn ac oedolyn (beth bynnag yw eu cefndir, diwylliant, oedran, anabledd, rhyw, ethnigrwydd, cred grefyddol, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol a statws trawsryweddol) yr hawl i gymryd rhan mewn cymdeithas

ddiogel heb drais, ofn, camdriniaeth, bwlio, ecsbloetiaeth a gwahaniaethu.

- Credwn fod gan bob plentyn yr hawl i gael eu diogelu rhag niwed, ecsbloetiaeth a chamdriniaeth.
- Byddwn yn rhoi lles plant ac oedolion yng ngwraidd ein polisïau a gweithdrefnau.
- Byddwn yn gweithio'n agos mewn partneriaeth â phlant, eu rhieni, eu gofalwyr ac oedolion ac asiantaethau eraill i ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion.
- Byddwn yn parchu hawliau, dymuniadau, teimladau a phreifatrwydd plant ac oedolion drwy wrando arnynt a lleihau unrhyw risgiau a all eu heffeithio.
- Byddwn yn buddsoddi mewn gwaith ataliol ac ymyrraeth gynnar a cheisio osgoi sefyllfaoedd lle gall cam-drin neu honiadau o gam-drin neu niwed ddigwydd.
- Rydym eisiau sicrhau bod amgylchedd gwaith lle mae ein gweithwyr yn teimlo'n hyderus i godi unrhyw bryderon ynghylch camymddwyn canfyddedig o fewn y Cyngor.

### 3.3 **Canlyniadau**

Byddwn yn mesur yr effaith yn rheolaidd a chyflawni'r canlyniadau lefel uchel canlynol:

- Mae dealltwriaeth glir ymhlith gweithwyr, cynghorwyr, asiantaethau partner a phobl sy'n gweithio ar ran y Cyngor am y polisïau a'r canllawiau ar gyfer diogelu plant ac oedolion.
- Mae gweithdrefnau gwasanaeth a chorfforaethol cadarn yn eu lle er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisi.
- Bydd cysondeb rhwng y polisi hwn a gweithdrefnau Cymru gyfan a phrotocolau lleol cysylltiedig ar gyfer diogelu plant ac oedolion.
- Mae gweithwyr a chynghorwyr yn mynychu hyfforddiant diogelu priodol.  Mae plant ac oedolion yn cael eu diogelu.

## 4.0 Rolau a Chyfrifoldebau

4.1 Mae gan bob cynghorydd, aelod o staff, gwirfoddolwr a darparwr gwasanaeth a gontractiwyd gyfrifoldeb i lynu at y gweithdrefnau a chanllawiau a nodir yn y polisi hwn. Drwy ddilyn y gweithdrefnau a'r canllawiau cywir, mae'n bosibl sicrhau bod y camau priodol yn cael eu gweithredu er mwyn delio ag unrhyw honiad neu bryder, bod gwasanaethau yn cael eu cynllunio a'u cyflwyno mewn ffordd sy'n diogelu plant ac oedolion a bod staff yn gallu cynnal eu hunain yn ddiogel.

4.2 Mae gan bob Portffolio o fewn y Cyngor rôl allweddol i'w chwarae ac mae'n rhaid iddynt fod â pherchnogaeth lawn o ddiogelu. Mae angen i bob Portffolio ddeall lle mae materion diogelu yn fwyaf tebygol o godi yn eu

gwasanaeth penodol a sicrhau fod gweithwyr yn derbyn yr hyfforddiant priodol ac yn ymwybodol o'r polisi hwn.

4.3 Y Prif Weithredwr sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod polisi diogelu a gweithdrefnau effeithiol yn eu lle ar gyfer plant ac oedolion a'u bod yn cael eu gweithredu. Fodd bynnag, mae swyddogion allweddol eraill â chyfrifoldebau diogelu penodol.

**4.4 Prif Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyfarwyddwr Statudol (Gwasanaethau Cymdeithasol)**

Yn unol â Chod Ymarfer ar Rôl Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol o dan Rhan 8 (Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae Prif Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyfrifol am y canlynol:

- Mae diogelu plant ac oedolion mewn risg o gamdriniaeth neu esgeulustod yn gyfrifoldeb ar bawb. Fodd bynnag, rhaid i gyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol ddangos arweinyddiaeth er mwyn sicrhau bod trefniadau diogelu effeithiol mewn lle o fewn yr awdurdod lleol a gan bartneriaid perthnasol.
- Rhaid i gyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol oruchwylio ac adrodd i gynghorwyr yn rheolaidd, o ran gweithrediad, monitro a gwella systemau diogelu plant ac oedolion o fewn yr awdurdod lleol.
- Rhaid i drefniadau diffiniedig gyda swyddogion eraill o fewn yr awdurdod lleol, yn arbennig pennaeth gwasanaethau oedolion a phennaeth gwasanaethau plant, fod yn glir o ran trefniadau dirprwyo ac adrodd mewn perthynas â materion diogelu.
- Rhaid i Fyrddau Diogelu Plant a Byrddau Diogelu Oedolion gynnwys cynrychiolydd sy'n ddigon uchel o bob awdurdod lleol o fewn ardal y Bwrdd. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i gyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol. Yn absenoldeb y cyfarwyddwr, gall swyddog arall sy'n dderbyniol i'r cyfarwyddwr ac sy'n ddigon uchel, fynychu yn eu lle.
- Mae gan bob partner gyfrifoldeb cyfartal ar gyfer ymarfer swyddogaethau'r
  Byrddau Diogelu, yn hytrach na bod yn swyddogaeth awdurdod lleol penodol. Rhaid i gyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol gefnogi gwaith partner effeithiol a sicrhau fod dyletswyddau wedi'u dyrannu'n effeithiol a chydweithredol gan y Byrddau Diogelu. Mae'r rhai yn cynnwys mewn perthynas â: o cyfrannu tuag at yr adolygiad a datblygiad o bolisïau a gweithdrefnau i ddiogelu plant ac oedolion mewn risg;
    - codi ymwybyddiaeth o gamdriniaeth, esgeulustod a niwed yn ardal y Bwrdd;

- adolygu rheolaidd o effeithiolrwydd mesurau diogelu lleol;
- cyflawni a sicrhau fod gwersi'n cael eu dysgu o Adolygiadau Ymarfer Plant ac Adolygiadau Ymarfer Oedolion;
- lledaenu gwybodaeth am arfer orau a dysgeidiaeth diogelu;
- sicrhau bod ymarferwyr ar draws holl bartneriaid diogelu yn derbyn neu â mynediad at hyfforddiant diogelu priodol; a
- sicrhau fod trefniadau effeithiol, dealladwy a chyhoeddus ar gyfer adrodd am blant ac oedolion sydd dan amheuaeth o fod mewn risg o gamdriniaeth neu esgeulustod.

Er bod gan bob aelod o staff gyfrifoldeb i ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion, Prif Swyddog, Gwasanaethau Cymdeithasol yw'r Uwch Swyddog o fewn y Cyngor sydd â'r atebolrwydd terfynol a diwahân dros hyn.

### 4.5 **Prif Swyddog, Addysg ac Ieuenctid**

Mae'r Uwch Swyddog, Addysg ac Ieuenctid, yn gyfrifol am gadeirio'r Panel Diogelu Corfforaethol, ar y cyd â'r Prif Swyddog, Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae tasgau allweddol y Prif Swyddog - Addysg ac Ieuenctid yn cynnwys gweithio i:

- wella lles plant a phobl ifanc yn yr ardal;
- diogelu a hyrwyddo lles holl blant a phobl ifanc;
- sicrhau gwaith effeithiol rhwng partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus;
- hyrwyddo newid strategol ar gyfer plant a phobl ifanc yn yr ardal;
- creu diwylliant cydweithredol ar gyfer gwneud penderfyniadau a gwella perfformiad; a
- hyrwyddo gwerthoedd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

### 4.6 **Arweinydd Diogelu Dynodedig o fewn pob Portffolio**

Bydd angen i bob Portffolio o fewn y Cyngor enwebu "Arweinydd Diogelu Dynodedig" a fydd yn gyfrifol am:

- fod yn gyfarwydd â deddfwriaeth diogelu cenedlaethol (megis Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004); Polisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor; Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan a'r Polisi a Gweithdrefn ar gyfer Diogelu Oedolion Diamddiffyn. • cynrychioli eu Gwasanaeth ar Banel Diogelu Corfforaethol y Cyngor a chyfrannu tuag at fusnes y Panel yn ôl y gofyn.
- mynychu gweithgareddau hyfforddi a datblygu perthnasol ar gyfer "Arweinwyr Diogelu Dynodedig".

- Sicrhau fod holl weithwyr o fewn eu maes â'r wybodaeth / hyfforddiant perthnasol; sicrhau fod diogelu yn parhau'n fater 'byw' o fewn y gwasanaeth.
- cydlynu archwiliad ac asesiad ar draws y gwasanaeth o ymarfer a phrosesau diogelu.
- cadw'n gyfredol gyda datblygiadau allweddol yn genedlaethol, rhanbarthol a lleol sydd ag elfen diogelu e.e. gweithgareddau a datblygiadau Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru.
- codi materion perthnasol yn y Panel Diogelu Corfforaethol.

Yr Arweinydd Diogelu Dynodedig ar gyfer pob Portffolio yw:

| Portffolio | Cyswllt |
|---|---|
| Aura | |
| Gwasanaethau Corfforaethol | |
| Addysg ac Ieuenctid | |
| Llywodraethu | |
| Tai | |
| NEWydd | |
| Pobl ac Adnoddau | |
| Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi | |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| Gwasanaethau Stryd a Chludiant | |

## 4.7. **Prif Swyddogion**

4.7.1 Bydd pob Pennaeth Gwasanaeth – drwy eu Timau Rheoli, yn gyfrifol ar y cyd am sicrhau bod pob gofyniad statudol, yn nhermau diogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion, yn derbyn sylw dyledus. Mae hyn yn cynnwys ansawdd, cynnwys ac amlder yr hyfforddiant a ddarperir a chynnal cofnodion digonol o hyfforddiant gweithwyr.

4.7.2 Rhaid i bob Prif Swyddog sicrhau bod eu gweithwyr yn cael eu gwirio'r briodol drwy gyfrwng gweithdrefnau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a bod eu gweithwyr yn cydymffurfio â'r Polisi DBS a'r Canllawiau ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion. Mae'n rhaid i holl Brif Swyddogion sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw o bob gwiriad a wneir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

4.7.3. Bydd holl Brif Swyddogion yn sicrhau y bydd gweithwyr yn ymwybodol o'r polisi hwn ac yn derbyn hyfforddiant diogelu priodol.

4.8 **Rheolwr Atebol**

Mae pob Rheolwr Atebol yn gyfrifol am sicrhau bod y gweithwyr y maent yn gyfrifol drostynt yn derbyn yr hyfforddiant y mae arnynt ei hangen, yn gymesur â'u cyfrifoldebau. Bydd Strategaeth Hyfforddiant yn cael ei pharatoi a fydd yn nodi pa aelodau o staff ddylai dderbyn hyfforddiant diogelu ac i ba lefel. Bydd hyfforddi Arweinwyr Diogelu Dynodedig ymhob Portffolio yn flaenoriaeth.

4.9 **Gweithwyr a Gwirfoddolwyr**

Mae pob gweithiwr a gwirfoddolwr yn gyfrifol am gyflawni eu dyletswyddau mewn modd sydd yn diogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion. Mae gofyn iddynt weithredu mewn modd sy'n eu diogelu yn erbyn honiadau ffug o gam-drin cyn gynted â phosibl yn unol â'r polisi hwn. Mae'n rhaid iddynt dynnu sylw'r Rheolwr at faterion o bryder yn ymwneud â lles plant ac oedolion a fydd yn hysbysu Gwasanaethau Cymdeithasol. Nid cyfrifoldeb yr unigolyn yw penderfynu a yw'r unigolyn wedi cael eu cam-drin neu beidio - cyfrifoldeb y Gwasanaethau Cymdeithasol yw cydlynu'r ymchwiliadau.

4.10 **Contractwyr, Is-gontractwyr, neu Sefydliadau Eraill a noddwyd gan, neu ar ran Cyngor Sir y Fflint**

Mae contractwyr, isgontractwyr, neu sefydliadau eraill a noddwyd gan, neu ar ran y
Cyngor yn gyfrifol am drefnu gwiriadau drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol. Maent hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod eu gweithwyr yn cydymffurfio â threfniadau rheoleiddio a dan gontract mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion. Mae angen i rai sefydliadau gynnal hunanasesiad blynyddol o drefniadau diogelu, ac i adrodd canlyniadau, fel rhan o drefniadau monitro contract. Disgwylir y bydd hyn yn gymwys i fwy o sefydliadau dros amser. Mae contractwyr hefyd yn gyfrifol am hysbysu'r rheolwyr perthnasol y Cyngor am unrhyw bryderon sydd ganddynt ac i atgyfeirio unrhyw faterion amddiffyn oedolion neu blant.

4.11 Amgaeir copi o "Arwyddion o Gamdriniaeth a Chaethwasiaeth Fodern" yn Atodiad 2 a cheir y "Cod Ymddygiad ac Arferion Gweithio Diogel" yn Atodiad 3.

## 5.0. Rôl Aelodau Etholedig

5.1 Mae'n ofyniad bod pob cynghorydd yn mynychu hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion, a chaiff hyn ei ail-adrodd bob tymor gwleidyddol. Bydd cofrestr yn cael ei gadw o'r rheiny sy'n mynd a bydd hyn yn cael ei adrodd fel rhan o drefniadau monitro perfformiad sy'n cael ei gydlynu gan y Diogelu Corfforaethol. Bydd yr hyfforddiant yn codi ymwybyddiaeth o'r polisi a'r canllawiau hyn ymysg Cynghorwyr Sir y Fflint ac yn cynyddu eu dealltwriaeth o'r gweithdrefnau diogelu sy'n bodoli o fewn y Cyngor ac yn sicrhau eu bod yn adnabod arwyddion o gamdriniaeth ac yn gwybod sut i atgyfeirio pryderon i' Gwasanaethau Cymdeithasol.

5.2 Bydd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Aelod Cabinet Rheolaeth Corfforaethol yn aelodau sefydlog o'r Panel Diogelu Corfforaethol.

5.3 Bydd Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn derbyn gwybodaeth yn ymwneud â gwaith y Panel Diogelu Corfforaethol drwy'r Adroddiad Blynyddol. Bydd hyn yn darparu cyfle i Aelodau graffu a herio'r Panel Diogelu Corfforaethol. Bydd Aelodau'r Panel Craffu yn derbyn gwybodaeth yn ymwneud â rhaglen waith y panel Corfforaethol, eu cynnydd yn erbyn y rhaglen waith a'r prif negeseuon sy'n deillio o drefniadau rheoli perfformiad. Bydd arsylwadau'r Pwyllgor Craffu yn llywio ac yn dylanwadu ar flaenoriaethau rhaglen waith y Panel Diogelu Corfforaethol.

5.4 Darperir copi o "Ganllawiau Arferion Da ar gyfer Cynghorwyr - Cyswllt Diogel gyda Phlant ac Oedolion Diamddiffyn" yn Atodiad 4.

## 6.0. Y Broses Adrodd

6.1**.** Gwyddom y gallai amheuon o gamdriniaeth fod ar sail 'pryderon' yn hytrach na 'ffeithiau' pendant. Gall pryderon diogelu godi mewn gwahanol gyd-destun, gan gynnwys os ydynt eisoes yn hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Er na fydd pryderon yn angenrheidiol yn sbarduno ymchwiliad, maent yn helpu i lunio darlun, ynghyd â phryderon gan ffynhonnell arall, a all nodi bod yr unigolyn yn dioddef o niwed.

6.2 Rhaid i unrhyw honiadau o gamdriniaeth posibl yn erbyn cydweithiwr, gofalwr, gwirfoddolwr, asiant neu unigolyn arall eu hadrodd i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Dylai gweithwyr gyda phryderon ynghylch diogelwch unigolyn, neu ymddygiad cydweithiwr tuag at blant neu oedolyn neu sy'n cael honiadau o gamdriniaeth posibl yn erbyn cydweithiwr, gofalwr, gwirfoddolwr neu asiant hysbysu eu rheolwr a fydd yn hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Dylai Cynghorwyr adrodd pryderon yn uniongyrchol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

6.3 Dylid rhannu pryderon gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol cyn gynted ag y mae problem, drwgdybiaeth neu bryder ynghylch plentyn neu oedolyn yn dod yn amlwg, ac yn sicr o fewn 24 awr. Bydd hyn yn sicrhau bod peryglon yn cael eu rheoli a bod gweithred briodol yn cael eu hystyried. Nid yw'n opsiwn i 'aros a gweld' neu i ddiystyru'r pryder fel nad yw'n berthnasol. Bydd methiant i adrodd amheuon/ honiadau o niwed neu gamdriniaeth mewn modd amserol a phriodol yn cael ei drin yn ddifrifol, a gall gael ei ymchwilio yn unol â pholisi disgyblu'r Cyngor. Mae rhannu'r wybodaeth gywir ar yr adeg iawn gyda'r bobl iawn, yn sylfaenol i arferion da wrth ddiogelu plant ac oedolion. Dylai'r gweithiwr gwblhau'r ffurflen atgyfeirio perthnasol (Atodiad 5 ar gyfer Oedolion), a ddylai gael ei hanfon ymlaen at y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae Atodiad 6 Deg Awgrym Gwych ar gyfer gwneud adroddiad, yn rhoi canllawiau ar yr hyn a ddylid ei gynnwys yn yr adroddiad.

Dylai'r cofnod hwn gael ei storio yn unol â Deddf Diogelu Data Nodir Awgrymiadau Gwych ar gyfer cofnodion da yn Atodiad 7.

6.4 Manylion Cyswllt Gwasanaethau Cymdeithasol:

**Plant-** Yn ystod oriau swyddfa cysylltwch â'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar 01352 701000

**Oedolion** - Yn ystod oriau swyddfa cysylltwch â'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar 0300858858.
Y tu allan i oriau swyddfa, ffoniwch y Gweithiwr Cymdeithasol ar Ddyletswydd os gwelwch yn dda ar: 0345 0533116

Cysylltwch â'r Heddlu'n uniongyrchol os credir fod trosedd wedi ei gyflawni. Ffoniwch 101 neu 999 mewn argyfwng

6.5 Bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn dilyn eu gweithdrefnau mewnol eu hunain ar ôl derbyn atgyfeiriad er mwyn sicrhau fod yr asiantaethau a phobl iawn yn ymchwilio i gamdriniaeth a bod yr oedolyn neu'r plentyn yn ddiogel.

6.6 **Ni** ddylai gweithwyr:

- ymchwilio neu ofyn cwestiynau arweiniol
- gytuno i gadw cyfrinach neu wneud addewid i gyfrinachedd - ond dylid rhoi sicrwydd y bydd yr wybodaeth yn cael ei rannu ar sail angen gwybod yn unig, fel gellir ymchwilio'r mater er mwyn cadw plant/ oedolion eraill yn ddiogel.
- cyffwrdd neu gael gwared ar dystiolaeth
- gwneud rhagdybiaeth neu gynnig eglurhad gwahanol
- cysylltu â'r camddefnyddiwr honedig
- siarad â gweithwyr, cynghorwyr, ffrindiau neu ddefnyddwyr gwasanaeth eraill ynghylch y wybodaeth a rannwyd gyda chi.

**Mae'n rhaid cysylltu â'r Heddlu ar unwaith os yw'r plentyn neu oedolyn mewn perygl.**

6.7 Dylai unrhyw weithiwr a effeithir gan faterion diogelu siarad â'u rheolwr atebol yn y lle cyntaf. Mae cymorth a chefnogaeth ar gael gan Iechyd Galwedigaethol; gellir cael mynediad at y gwasanaeth hwn drwy hunanatgyfeiriad neu atgyfeiriad y rheolwr. Gall weithwyr gysylltu â'r Tîm Dyletswydd Gwasanaethau Cymdeithasol ar y rhif uchod os ydynt yn teimlo eu bod yn ddioddefwr o gamdriniaeth. Bydd pob galwad yn cael ei drin yn gyfrinachol.

**Siart Lif**

**Hysbysu**

↓

Adroddwch am bryderon o gamdriniaeth neu esgeulustod ar unwaith i'r rheolwr gan ddefnyddio'r ffurflen atgyfeirio yn Atodiad 5 (oni bai eich bod yn amau eu bod yn rhan, yn yr achos hwn adroddwch i'w huwch reolwr).

↓

Dylai'r rheolwr adrodd i'r Gwasanaethau Cymdeithasol
**(Os yw oedolyn neu blentyn mewn perygl dylid cysylltu â'r heddlu)**

↓

Bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydlynu ymchwiliadau ac yn sicrhau bod yr oedolyn neu blentyn yn ddiogel.

↓

Bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi adborth ar ganlyniad yr ymchwiliad i'r rheolwr a'r hysbysydd dechreuol.

6.8. **Atgyfeiriadau ar gyfer Atal a Chaethwasiaeth Fodern**

6.8.1 **Atal**

Mae strategaeth Prevent y Llywodraeth yn anelu i ddiogelu pobl ddiamddiffyn yn erbyn radicaleiddio ac eithafiaeth Mae Deddf

Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau penodol i roi sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth.

Os ydych yn bryderus am unigolyn yn cael ei dynnu i mewn i derfysgaeth, mae ffurflen atgyfeirio ar wahân, **ffurflen atgyfeirio Atal Cymru Gyfan** ar gael ar yr Infonet ar y dudalen Diogelu, a gyflwynir i Heddlu Gogledd Cymru.
Gallwch hefyd hysbysu Llinell Frys yr Heddlu ar **0800 789 321** neu cysylltwch â
Heddlu Gogledd Cymru os oes gennych unrhyw bryderon neu am gyngor pellach: **Ffôn:** 01745 588814 est
88814 **E-bost:**Prevent@nthwales.pnn.police.uk

Os oes yna unrhyw berygl uniongyrchol neu niwed, ffoniwch 999.

6.8.2 **Caethwasiaeth Fodern**

Mae Caethwasiaeth Fodern yn drosedd difrifol ac yn aml yn un cudd ble mae pobl yn cael eu hecsbloetio er budd troseddol. Gall yr effaith fod yn ddinistriol i'r dioddefwyr.
Mae caethwasiaeth fodern yn cynnwys caethwasiaeth, caethiwed, llafur gorfodol a masnachu mewn pobl. Nid yw pob dioddefwr caethwasiaeth fodern yn cael eu masnachu ar draws y ffin. Mae masnachu mewnol dioddefwyr i rannau eraill o'r DU yn digwydd, ac mae ffurfiau eraill o gaethwasiaeth fodern yn cynnwys peidio symud y dioddefwr o gwbl.

Gellir dod o hyd i ddioddefwyr caethwasiaeth fodern yn unrhyw le. Mae yna rai diwydiannau ble maent yn fwy cyffredin, fel bariau ewinedd, mannau golchi ceir, amaethyddiaeth, safleoedd adeiladu a'r diwydiant rhyw.

Y mecanwaith atgyfeirio cenedlaethol (MAC) yw'r fframwaith ble mae dioddefwyr posibl masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth fodern yn cael eu nodi a'u cefnogi. Gall awdurdodau lleol atgyfeirio dioddefwyr posibl drwy Fecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (MAC).
https://www.modernslavery.gov.uk.

**Rhaid** cysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol os oes plentyn ynghlwm. Gellir hefyd adrodd drwy ffonio 999 os bydd yna berygl uniongyrchol o berygl o niwed. Rhoi gwybod i'r heddlu ar 101.

Gall holl weithwyr lawrlwytho'r App "Unseen" ar eu dyfeisiau symudol, ar gael o www.modernslaveryhelpline.org. Mae'n rhoi gwybodaeth ar arwyddion ffisegol a seicolegol i fod yn ymwybodol ohonynt mewn

dioddefwyr yn ogystal ag amgylcheddau lle mae caethwasiaeth fodern yn digwydd

Os oes pryderon ychwanegol am unigolyn dylai'r rhain gael eu gwneud i'r Gwasanaethau Cymdeithasol gan ddefnyddio'r ffurflenni atgyfeirio priodol yn atodiad 5.

## 7.0. Cyfathrebu

7.1 Bydd y Panel Diogelu Corfforaethol yn datblygu cynllun cyfathrebu blynyddol i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddiogelu yn fewnol ac allanol er mwyn sicrhau bod gweithwyr yn adnabod arwyddion camdriniaeth ac esgeulustod a gwybod sut i adrodd am bryderon. Bydd negeseuon diogelu allweddol yn cael eu rhannu i'r gweithlu yn dilyn cyfarfod y Panel Diogelu Corfforaethol.

7.2 Bydd y polisi hwn yn cael ei ledaenu'n helaeth i holl weithwyr a phartneriaid perthnasol.

7.3 Mae'r Ap Diogelu Cymru yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth yn ogystal â'r fideo NSPCC a'r fideo Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gweld Rhywbeth Dweud Rhywbeth.

## 8.0 Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol

8.1 **Panel Diogelu Corfforaethol**
Pwrpas y Panel Diogelu yw:

- sicrhau fod "Diogelu" yn fusnes i bawb ymhob Gwasanaeth o fewn y Cyngor gan weithio ar y rhagosodiad fod "Diogelu" yn gysyniad ehangach nac amddiffyn plant ac oedolion ac yn delio gyda hyrwyddo:
    - Iechyd corfforol, emosiynol a meddyliol;
    - Diogelu rhag niwed ac esgeulustod;
    - Addysg, hyfforddiant a hamdden;
    - Cyfrannu at gymdeithas
    - Lles economaidd a chymdeithasol.

- sicrhau fod gan y Cyngor prosesau sicrwydd a rheolaeth effeithiol mewn lle ar gyfer diogelu plant ac oedolion mewn risg ac yn cyflawni ei ddyletswyddau corfforaethol ac mewn partneriaeth ag asiantaethau statudol eraill.

- ystyried materion a gyfeirir at y Panel o fewn ei gylch gorchwyl ac i yrru gwelliannau mewn diogelu ymlaen.

Mae Cylch Gorchwyl llawn ar gyfer y Panel Diogelu Corfforaethol yn Atodiad 9.

8.2 Mae'r panel hwn yn derbyn gwybodaeth mewn perthynas ag arferion gwaith a gweithdrefnau pob gwasanaeth yn y Cyngor, gan ddarparu sicrwydd bod y gwasanaethau yn bodloni eu dyletswyddau yn unol â Pholisi a Chanllawiau Diogelu Corfforaethol Yn ychwanegol at hyn, bydd y Panel yn derbyn gwybodaeth yn ymwneud â threfniadau rheoli perfformiad bob Gwasanaeth er mwyn dangos eu bod yn rhyddhau eu dyletswyddau mewn modd sy'n diogelu plant ac oedolion.

8.3 Bydd y Panel Diogelu Corfforaethol yn adrodd i'r Cabinet bob blwyddyn. Bydd pob Aelod Cabinet yn derbyn sicrwydd gan y Panel bod rhaglen waith glir ar waith a bod polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor yn gadarn yn y maes diogelu. Bydd cyfle yn yr Adroddiad Blynyddol i'r Panel Diogelu Corfforaethol amlygu unrhyw rwystrau neu bryderon sydd ganddynt yn nhermau ymateb neu berfformiad unrhyw Bortffolio o fewn y Cyngor. Bydd unrhyw wersi o Adolygiadau Arferion Plant / Oedolion yn cael eu nodi i'r Cabinet fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol. Bydd diogelu hefyd yn cael ei gynnwys o fewn yr adroddiadau Cynllun Gwella chwarterol.

8.4 Bydd y Tîm Prif Swyddogion hefyd yn derbyn yr adroddiad blynyddol, gyda mwy o adrodd rheolaidd yn ôl y gofyn. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i'r Prif Weithredwr bod diogelu yn cael sylw dyledus o fewn y Cyngor.

8.5 Mae'r Panel yn cyd-fynd â rôl y Bwrdd Diogelu Oedolion / Plant Rhanbarthol. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar sicrhau bod trefniadau aml-asiantaeth cadarn ar waith i ddiogelu plant ac oedolion mewn perygl a bod gan bartneriaid allweddol systemau diogelu priodol ar waith. Rôl Panel Diogelu Corfforaethol Sir y Fflint yw sicrhau goruchwyliaeth effeithiol o ddiogelu ar draws yr ystod eang o wasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu a'u comisiynu.

## 9.0. Adrodd, Monitro ac Adolygu

9.1**.** Bydd Adroddiad Blynyddol Panel Diogelu Corfforaethol yn tynnu sylw at berfformiad y Cyngor wrth gydymffurfio â'r Canllawiau a Pholisi Corfforaethol. Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Prif Swyddogion, y Cabinet a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol. Hefyd, ar ran y Cyngor yn gyffredinol, bydd y Panel Diogelu yn adrodd i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol fel rhan o'r gofynion o dan adran 28 o Ddeddf Plant 2004.

9.2**.** Cynigir cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol bob mis Mehefin. Bydd sylw penodol yn cael ei roi i ddechrau i'r Dangosyddion Perfformiad canlynol.

Disgwylir y bydd y set ddata yn esblygu dros amser er mwyn gallu casglu gweithgaredd diogelu yn well gyda mwy o ehangder:

9.3. Bydd y Panel Diogelu Corfforaethol yn cyflawni gwaith adolygu a monitro chwarterol o ddangosyddion perfformiad perthnasol. Mae'r Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant eisoes yn derbyn data craidd yn rheolaidd. Bydd unrhyw bryderon o ran tanberfformio/llithro yn drywydd ymholi posibl mewn heriau gwasanaeth a bydd angen cynllun gweithredu clir i ymateb i bryderon.

Bydd y Polisi Diogelu hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol, neu os yw'r ddeddfwriaeth yn newid neu wrth ystyried newidiadau mewn arferion gweithio a allai ddeillio o achosion neu honiadau.

**At**todiad 1

Mae **Deddf Plant 1989 a 2004** yn rhoi dyletswydd statudol ar ystod o sefydliadau i wneud trefniadau i sicrhau bod eu swyddogaethau, a gwasanaethau a ddarperir ar eu rhan, yn cael eu cyflawni gan ystyried yr angen am ddiogelu a hybu lles plant.

’Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004'

Mae Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru “Diogelu Plant: Gweithio gyda’n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004” yn darparu fframwaith ar gyfer gwaith diogelu Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid ac yn sail ar gyfer cydweithrediad rhyngasiantaethol ac amlddisgyblaethol mewn atgyfeiriadau, asesu, cynllunio gofal, ymyrraeth a phrosesau adolygu. Rhaid i Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid hefyd gydymffurfio â:

- Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006: Gweithgareddau wedi’u rheoli
- Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008;
- Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 34/02 Amddiffyn Plant: Atal Pobl Anaddas rhag Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc yn y Gwasanaeth Addysg; a • Diogelu Plant mewn Addysg: Cylchlythyr WAG 05/08.

**Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 -** yn helpu i ddiogelu plant a hyrwyddo eu lles

**Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 -** yn canfod plant ac oedolion a all fod yn ddiamddiffyn i ideolegau sy’n eu rhoi nhw, eu teuluoedd a’r cyhoedd mewn perygl pe byddent yn cael eu denu i weithredu ar gredoau eithafol. Mae canfod unigolion mewn risg o radicaleiddio a phenderfynu pa gamau sydd eu hangen i’w cefnogi nhw yn cyd-fynd â phroses ymyrraeth amlasiantaeth ‘Channel’ sy’n atal cyfranogiad parhaus.

Mae **Prevent** yn un o bedwar ffrwd o strategaeth gwrthderfysgaeth y Llywodraeth gyda’r nod o atal pobl rhag dod yn derfysgwyr neu gefnogi terfysgaeth. Mae Prevent yn gweithio ar y cam cyn-droseddol gan ddefnyddio ymyrraeth gynnar i annog unigolion a chymunedau i herio ideoleg ac ymddygiad eithafol a therfysgaeth.

Mae Rhan 5 y Ddeddf yn creu ‘dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau penodol, wrth ymarfer ei swyddogaethau, i gael sylw dyledus i’r angen i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth’. Mae’r Cyngor yn awdurdod penodol. Mae diogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion mewn risg yn ganolog i weithredu’r strategaeth Prevent.

**Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 -** mae'r Ddeddf hon yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i sicrhau y cymerir pob cam rhesymol i amddiffyn oedolion ac i atal trosedd ac anhrefn wrth gyflawni ei swyddogaethau.

**Deddf Addysg 2002 -** Mae Canllaw Statudol Cadw Pobl yn Ddiogel mewn Ysgolion, yn nodi dyletswyddau cyfreithiol y dylid eu dilyn er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc o dan 18 oed mewn ysgolion a cholegau.
Mae **Deddf Cydraddoldeb 2010** yn gwarchod pobl rhag gwahaniaethu yn y gweithle ac yn y gymdeithas ehangach. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i:

- gael gwared ar wahaniaethu
- gynnig cyfleoedd cyfartal
- feithrin perthnasau da rhwng pobl wahanol wrth gyflawni eu gweithgareddau

Mae **Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau'r Plentyn** yn gytundeb rhyngwladol i fodloni anghenion plant, mae'r hawliau yn y cytundeb yn cynnwys amddiffyn plant rhag holl ffurfiau o drais corfforol neu feddyliol, niwed neu gamdriniaeth, esgeulustod, camarfer neu ecsbloetiaeth.

Mae **Deddf Hawliau Dynol 1998** yn nodi hawliau a rhyddid sylfaenol sydd gan bawb yn y DU hawl iddynt, gan gynnwys rhyddid rhag artaith a thriniaeth annynol neu ddiraddiol a rhyddid rhag caethwasiaeth a llafur gorfodol. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau cyhoeddus i barchu hawliau dynol yn eu penderfyniadau a gweithrediadau, maent yn cynnwys yr hawl i beidio â chael eu harteithio neu drin mewn modd annynol.

**Deddf Trwyddedu 2003 -** Mae'r ddeddf yn nodi pedwar amcan trwyddedu sydd rhaid eu hystyried pan fydd awdurdod lleol yn cyflawni ei swyddogaethau. Y rhain yw:

1. atal trosedd ac anhrefn.
2. diogelwch y cyhoedd.
3. atal niwsans cyhoeddus.
4. amddiffyn plant rhag niwed

Deddf Galluedd Meddyliol 2005: wedi'i ddylunio i amddiffyn a grymuso pobl sydd â diffyg galluedd meddyliol i wneud eu penderfyniadau eu hunain am eu gofal a'u triniaeth. Mae'n gymwys i bobl 16 oed a hŷn. Mae'n cynnwys penderfyniadau am bethau dydd i ddydd fel beth i'w wisgo neu beth i'w brynu wrth siopa'n wythnosol, neu benderfyniadau difrifol all newid bywyd, megis symud i ofal cartref neu gael triniaeth fawr.

**Mae Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015** yn ceisio dileu caethwasiaeth fodern, sy’n cynnwys masnachu pobl, caethwasiaeth, llafur gorfodol a chaethwasiaeth ddomestig.

Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014** yn cyflwyno dull partneriaeth gref, gadarn ac effeithiol i ddiogelu. Mae’n gofyn i awdurdodau lleol drefnu gwasanaethau ataliol, gan gynnwys cyfrannu tuag at atal pobl rhag dioddef o gamdriniaeth neu esgeulustod. Rhaid i bob gweithiwr proffesiynol a sefydliad wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod plant ac oedolion sydd mewn perygl yn cael eu gwarchod rhag camdriniaeth. Mae’r Ddeddf yn cynnwys Canllawiau Statudol ’Gweithio gyda’n Gilydd i Ddiogelu Pobl <http://www.ccwales.org.uk/codes-of-practice-and-statutory-guidance> <http://www.ccwales.org.uk/codes-of-practice-and-statutory-guidance>**<http://www.ccwales.org.uk/codes-of-practice-and-statutory-guidance>** <http://www.ccwales.org.uk/codes-of-practice-and-statutory-guidance> <http://www.ccwales.org.uk/codes-of-practice-and-statutory-guidance>**<http://www.ccwales.org.uk/codes-of-practice-and-statutory-guidance>**<http://www.ccwales.org.uk/codes-of-practice-and-statutory-guidance>

Mae **Deddf Trais yn Erbyn Merched a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015** yn ceisio gwella:

(a) trefniadau ar gyfer atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;

(b) trefniadau ar gyfer diogelu dioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;

(c) cefnogi pobl a effeithir gan drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Gweithdrefnau Diogelu Cymru: Gweithdrefnau Diogelu Cenedlaethol Cymru. Mae nhw’n rhoi manylion rolau a chyfrifoldebau hanfodol ymarferwyr i sicrhau eu bod yn diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl o gamdriniaeth ac esgeulustod.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn mynnu bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn meddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio’n well gyda phobl, cymunedau a’n gilydd, ac atal problemau cyson fel anghydraddoldeb iechyd, tlodi a newid hinsawdd.

**Atodiad 2**

**Arwyddion o Gamdriniaeth a Chaethwasiaeth Fodern** Plant mewn Angen

Mae camdriniaeth ac esgeulustod yn ddwy ffurf o gam-drin plentyn. Gall rhywun gam-drin neu esgeuluso plentyn naill ai yn uniongyrchol trwy achosi niwed, neu'n anuniongyrchol drwy fethu â gweithredu i atal niwed. Gall plant gael eu cam-drin mewn amgylchedd teulu neu mewn amgylchedd sefydliadol neu gymunedol; gan bobl y maen nhw'n eu hadnabod; neu, yn fwy anaml, gan ddieithryn. Efallai y cânt eu cam-drin gan oedolyn neu oedolion, neu gan blentyn arall neu blant eraill.
Mae pedwar math o gam-drin plant. Diffinnir hwy yng Ngweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan a chanllawiau Llywodraeth Cymru *Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004* fel a ganlyn:

**Cam-drin corfforol**

Gall cam-drin corfforol gynnwys taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, mygu, neu achosi niwed corfforol arall i blentyn. Gall niwed corfforol gael ei achosi hefyd pan fo rhiant neu ofalwr yn ffugio symptomau salwch mewn plentyn neu'n cymell hynny'n fwriadol.

**Gall arwyddion cam-drin corfforol gynnwys:**

- cleisiau, marciau neu anafiadau ar unrhyw ran o'r corff na ellir eu hesbonio
- nifer o gleisiau – mewn clystyrau yn aml ar ran uchaf y fraich a'r tu allan i'r glun
- llosgiadau sigarét
- marciau brathu dynol
- esgyrn wedi torri
- sgaldio, gyda marciau'n tasgu'n mynd at i fyny
- nifer o losgiadau gydag ymylon wedi'u diffinio'n glir.

Sylwch, bydd rhan fwyaf o blant yn cael toriadau a chleisiau wrth fyw bywyd o bant i bentan. Dylid dehongli anafiadau bob amser yng ngoleuni hanes meddygol a chymdeithasol y plentyn, ym mha gam datblygiadol y maent ac yng nghyd-destun yr esboniad a roddwyd. Mae'r rhan fwyaf o gleisiau damweiniol i'w gweld dros rannau esgyrnog y corff e.e. penelinoedd, pengliniau, crimogau, ac yn aml ar flaen y corff. Dangosyddion pwysig o gam-drin corfforol yw cleisiau neu anafiadau sydd naill ai heb eu hesbonio neu sy'n anghyson â'r esboniad a roddwyd, neu sy'n weladwy ar rannau 'meddal' y corff lle bo anafiadau damweiniol yn annhebygol, e.e. bochau, abdomen, y cefn neu'r pen ôl.

**Newid mewn ymddygiad a allai fod yn arwydd o gamdriniaeth gorfforol:**

- ofn bod rhywun am ofyn i'r rhieni am eglurhad
- ymddygiad ymosodol neu byliau difrifol o dymer

- gwingo pan fydd rhywun yn mynd yn agos atynt neu'n eu cyffwrdd
- Gwrthod newid, er enghraifft mewn tywydd poeth □ iselder neu ymddygiad tawedog □ rhedeg i ffwrdd o gartref.

**Cam-drin Emosiynol**
Cam-drin emosiynol yw cam-drin plentyn yn barhaus yn emosiynol nes achosi effeithiau andwyol difrifol a pharhaus ar ddatblygiad emosiynol y plentyn. Gall gynnwys cyfleu i'r plant eu bod yn ddiwerth a bod neb yn eu caru, eu bod yn annigonol, neu yn cael eu gwerthfawrogi yn unig i'r graddau eu bod yn bodloni anghenion person arall. Gall gynnwys rhoi disgwyliadau sy'n amhriodol ar blant o safbwynt oed neu ddatblygiad. Gall gynnwys peri plant i deimlo'n ofnus neu mewn perygl yn aml, neu gam-fanteisio neu lygru plant. Mae rhyw lefel o gam-drin emosiynol yn ymwneud â phob math o gam-drin plentyn, er fe allai ddigwydd ar ei ben ei hun.

**Gall newidiadau mewn ymddygiad sy'n arwyddion o gam-drin emosiynol gynnwys:**
- ymddygiad niwrotig e.e. pwdu, troelli gwallt, siglo
- methu â chwarae
- bod ofn gwneud camgymeriadau
- nam lleferydd sydyn
- hunan-niweidio
- bod ofn i rywun fynd at riant ynghylch eu hymddygiad
- oedi datblygiadol o ran datblygiad emosiynol

**Cam-drin Rhywiol**
Mae cam-drin rhywiol yn golygu gorfodi neu hudo plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol, ddim o reidrwydd yn cynnwys trais lefel uchel, os yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio. Gall y gweithgarwch gynnwys cyffwrdd corfforol, gan gynnwys ymosodiad drwy dreiddio (er enghraifft, treisio neu gyfathrach eneuol) neu weithredoedd anhreiddiol megis mastyrbio, cusanu, rhwbio a chyffwrdd y tu allan i'r dillad. Gall hefyd gynnwys gweithgarwch heb gyffwrdd, megis gwneud i blant edrych ar, neu gynhyrchu delweddau rhywiol, gwylio gweithgareddau rhywiol, annog plant i ymddwyn mewn modd rhywiol amhriodol, neu hudo plentyn i'w baratoi i gael ei gam-drin (gan gynnwys drwy'r rhyngrwyd).

**Gall arwyddion cam-drin rhywiol gynnwys:**
- poen neu gosi o gwmpas yr organau rhywiol
- cleisio neu waedu o gwmpas yr organau rhywiol
- clefydau a drosglwyddir yn rhywiol
- rhedlif neu haint gweiniol
- poenau stumog wrth gerdded neu eistedd
- Beichiogrwydd

**Gall newidiadau mewn ymddygiad sydd hefyd yn arwyddion o gam-drin rhywiol gynnwys:**

- newidiadau sydyn neu anesboniadwy mewn ymddygiad e.e. troi'n ymosodol neu'n dawedog
- bod ofn cael eu gadael â pherson neu grŵp penodol o bobl
- hunllefau
- rhedeg i ffwrdd o'u cartref
- gwybodaeth rywiol y tu hwnt i'w hoed, neu eu lefel datblygiadol
- lluniau neu iaith rywiol
- gwlychu'r gwely
- problemau bwyta, megis gorfwyta neu anorecsia
- hunan-niweidio neu hunan-anffurfio, gan arwain at geisio cyflawni hunanladdiad
- dweud bod ganddynt gyfrinachau na allant ddweud wrth unrhyw un
- camddefnyddio cyffuriau neu sylweddau
- bod â ffynonellau o arian yn fwyaf sydyn heb esboniad, ddim yn cael bod â ffrindiau ( yn benodol yn ystod glaslencyndod)
- ymddwyn mewn modd rhywiol ddi-gêl tuag at oedolion

**Esgeulustod**

Mae esgeulustod yn fethiant i ddiwallu anghenion corfforol, emosiynol neu seicolegol sylfaenol plentyn sy'n debygol o arwain at nam difrifol ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn. Gall gynnwys rhiant neu ofalwr sy'n methu â darparu digon o fwyd, lloches a dillad, sy'n methu ag amddiffyn plentyn rhag niwed neu berygl corfforol, neu fethiant i sicrhau mynediad at ofal meddygol neu driniaeth briodol. Gall hefyd gynnwys esgeuluso, neu beidio ag ymateb i anghenion emosiynol sylfaenol y plentyn.

**Gall arwyddion corfforol esgeulustod gynnwys:**

- eisiau bwyd yn gyson, weithiau'n dwyn bwyd oddi ar blant eraill
- yn fudr neu'n 'drewi' o hyd
- colli pwysau, neu dan bwysau o hyd  dillad amhriodol ar gyfer yr amodau.

**Gall newidiadau mewn ymddygiad sydd hefyd yn arwyddion o esgeulustod gynnwys:**

- cwyno eu bod wedi blino drwy'r amser
- ddim yn gofyn am gymorth meddygol ac/ neu fethu â mynychu apwyntiadau
- bod â nemor ddim ffrindiau
- crybwyll cael eu gadael ar eu pen eu hunain neu heb eu goruchwylio

Ni fwriedir i'r diffiniadau a'r dangosyddion hyn fod yn rhestr gyflawn, ond yn hytrach eu bwriad yw bod yn ganllaw i'ch cynorthwyo. Mae'n bwysig hefyd cofio y gall llawer o blant arddangos rhai o'r dangosyddion hyn ar ryw adeg neu'i gilydd, ac na ddylid ystyried presenoldeb un neu ragor

ohonynt fel prawf bod cam-drin yn digwydd.  Gall fod rhesymau eraill dros newid mewn ymddygiad megis profedigaeth neu eni babi newydd i'r teulu neu dor-perthynas rhwng rhieni/gofalwyr. Wrth asesu a yw dangosyddion yn gysylltiedig â cham-drin ai peidio, bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol bob amser eisiau eu deall mewn perthynas â datblygiad y plentyn a'r cyd-destun.

**Oedolion sydd angen eu Hamddiffyn**

**Categorïau Cam-drin**

Mae sawl ffordd y gall oedolyn mewn risg gael ei gam-drin. Nid yw'n anarferol i oedolyn sy'n cael ei gam-drin ddioddef mwy nag un math o gamdriniaeth.  Yn yr un modd, rhaid gwerthuso effaith camdriniaeth a'i ddifrifoldeb i'r unigolyn ym mhob achos. Mae *Mewn Dwylo Diogel* yn nodi pum prif gategori o gamdriniaeth*:*

Corfforol
Rhywiol
Ariannol
Emosiynol neu Seicolegol
Esgeulustod

**Cam-drin corfforol**

Cam-drin corfforol yw bod person sydd â chyfrifoldeb, gofal neu warchodaeth dros berson mewn risg, neu sydd mewn sefyllfa lle byddai person diamddiffyn yn ymddiried ynddo, neu'n disgwyl ymddiried ynddo yn achosi, yn ddiangen, unrhyw fath o boen corfforol, dioddefaint neu anaf i'r person diamddiffyn hwnnw.  Gall un oedolyn mewn risg hefyd gam-drin oedolyn mewn risg arall yn gorfforol.

**Cam-drin Rhywiol**

Mae cam-drin oedolion yn rhywiol yn cyfeirio at gynnwys oedolyn mewn risg yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol mewn gweithgarwch rhywiol nad ydynt yn barod neu'n gallu rhoi cysyniad gwybodus iddo, neu nad ydynt yn ei ddeall yn llwyr, neu sy'n amharu ar dabŵs cymdeithasol rolau teuluol, megis llosgach. Gall un oedolyn mewn risg hefyd gam-drin oedolyn mewn risg arall yn rhywiol.

Mae unrhyw weithgarwch rhywiol na chydsynnir yn rhydd iddo yn drosedd. Pan gam-fanteisir ar ymddiriedaeth, gall gweithgarwch rhywiol ymddangos fel pe bai cysyniad, ond mae'n annerbyniol oherwydd y gwahaniaeth o ran pŵer a dylanwad rhwng y bobl sydd ynghlwm ag o.
Mae cam-drin rhywiol yn cynnwys cyfranogiad oedolion mewn risg mewn puteindra neu weithgareddau masnach rhyw.

## Cam-drin Emosiynol neu Seicolegol

Cam-drin emosiynol neu seicolegol yw achosi dioddefaint meddyliol gan berson mewn sefyllfa y byddai person mewn risg yn ymddiried ynddo neu'n disgwyl gallu ymddiried ynddo. Gall un oedolyn mewn risg hefyd gam-drin oedolyn mewn risg arall yn emosiynol / seicolegol.
Mae cam-drin emosiynol a seicolegol yn cynnwys bwlio, sef, yn nodweddiadol, ymddygiad bwriadol gas sy'n cael ei ail-adrodd dros amser, ac a all gynnwys cam-drin corfforol ond sydd yn aml ar lafar (galw enwau a bygwth). Mae'n gallu tanseilio hunanhyder, gall achosi i'r dioddefwr fynd yn fwy ynysig a gall weithiau arwain at hunan-niweidio.

Gall cam-drin emosiynol a seicolegol, gan gynnwys **bwlio ac aflonyddu**, fod yn gynnil iawn, er enghraifft, gall gymryd ffurf anwybyddu neu eithrio'r dioddefwr. Gall cam-drin o'r fath fod yn uniongyrchol, megis peidio ag ymateb i'r person neu anuniongyrchol, megis rhoi ffafriaeth annheg i berson arall.

Gall cam-drin emosiynol a seicolegol fod yn gronnol, o bosib gan gronni dros fisoedd neu hyd yn oed flynyddoedd. Gall gynnwys un person neu fwy a gall fod yn rhan o'r diwylliant o fewn unrhyw sefydliad neu wasanaeth.

Enghraifft arall o gam-drin seicolegol fyddai bod oedolyn mewn risg yn cael ei annog neu ei gymell i gyflawni trosedd neu gamdriniaeth. Gall enghreifftiau gynnwys annog rhywun i ddwyn, i ymddwyn yn dreisgar neu i gyflawni troseddau rhywiol. Bu enghreifftiau hefyd o oedolion mewn risg yn cael eu hecsbloetio i gyflawni gweithredoedd o eithafiaeth radical. Wrth benderfynu a ddigwyddodd achos o gam-drin emosiynol a seicolegol, yr effaith ar yr oedolyn yw'r hyn sy'n cyfrif. Gall gweithredoedd unigol ymddangos yn ddi-nod ac efallai mai digwyddiad unigol ydoedd, ond os ydynt yn rhan o batrwm ehangach o gam-drin y mae oedolyn mewn risg yn ei brofi yna efallai y bydd yr effaith arnyn nhw yn sylweddol. Felly, ar bob achlysur rhaid ystyried ym mha gyd-destun y mae'r oedolyn mewn risg wedi profi'r weithred wrth benderfynu a ddigwyddodd camdriniaeth ai peidio.

## Cam-drin Ariannol neu Faterol

Cam-drin ariannol neu faterol yw unrhyw ladrad neu gamddefnydd o arian, eiddo neu adnoddau unigolyn gan berson mewn sefyllfa y byddai oedolyn mewn risg yn ymddiried ynddo neu yn disgwyl gallu ymddiried ynddo. Mathau cyffredin o gam-drin ariannol yw bod eraill yn camddefnyddio budd-daliadau gwladol yr oedolion mewn risg neu'n rhoi pwysau gormodol ar rywun i newid eu hewyllys. Gall un oedolyn mewn risg hefyd gam-drin oedolyn mewn risg arall yn ariannol neu faterol.

**Esgeulustod**
Esgeulustod yw methiant unrhyw berson y byddai disgwyl gallu ymddiried ynddynt ac/neu sydd â chyfrifoldeb, gofal neu warchodaeth am berson diamddiffyn i ddarparu'r lefel honno o ofal y byddai person rhesymol mewn sefyllfa debyg yn ei ddarparu. Gall esgeulustod fod yn droseddol neu'n annhroseddol. Gall hefyd fod o ganlyniad i weithredoedd neu anwaith bwriadol neu anfwriadol.

**Caethwasiaeth Fodern**
Mae caethwasiaeth fodern yn cynnwys caethwasiaeth, llafur gorfodol a masnachu mewn pobl. Mae masnachwyr pobl a gyrwyr caethwasiaeth yn cymell, twyllo a gorfodi unigolion yn erbyn eu hewyllys, i fywyd o gamdriniaeth, caethwasiaeth a thriniaeth greulon. Gall ddioddefwyr gael eu hecsbloetio'n rhywiol, eu gorfodi i weithio am ychydig neu ddim tâl neu eu gorfodi i wneud gweithgareddau troseddol yn erbyn eu hewyllys. Yn aml caiff dioddefwyr eu rhoi dan bwysau i gaethwasiaeth oherwydd dyledion, ac maent yn debygol o fod ofn y rhai sydd yn eu hecsbloetio, a fydd yn aml yn bygwth a cham-drin y dioddefwyr a'u teuluoedd. Mae'r holl ffactorau hyn yn ei gwneud yn anodd iawn i ddioddefwyr ddianc. Nid oes dioddefwr nodweddiadol o gaethwasiaeth - gall ddioddefwyr fod yn ddynion, merched neu blant o bob oed a gwlad. Mae nifer o ddioddefwyr yn wladolion tramor sydd wedi cael eu hanfon i'r DU yn benodol i gael eu cam-drin a'u hecsbloetio er budd eraill. Mae rhai yn cael eu twyllo i gredu eu bod yn talu eraill i hwyluso eu siwrnai i'r DU neu eu bod yn cael eu smyglo yma. Yn aml, nid yw nifer ohonynt yn darganfod eu bod yn cael eu hanfon ar gyfer bywyd o gamdriniaeth a chaethwasiaeth tan iddynt gyrraedd.

Nid yw pob dioddefwr caethwasiaeth fodern yn cael eu masnachu ar draws y ffin. Gwyddwn fod masnachu mewnol dioddefwyr i rannau eraill o'r DU yn digwydd, ac mae ffurfiau eraill o gaethwasiaeth fodern yn cynnwys peidio symud y dioddefwr o gwbl.

Mae mathau o gaethwasiaeth yn cynnwys:

**Masnachu plant** Mae pobl ifanc (o dan 18 oed) yn cael eu symud yn rhyngwladol neu'n ddomestig er mwyn cael eu hecsbloetio.

**Llafur Gorfodol/Caethwasiaeth oherwydd Dyledion** Gorfodir dioddefwyr i weithio er mwyn talu dyledion na fyddent fyth yn gallu ei dalu'n ôl. Mae cyflogau isel a dyledion cynyddol yn golygu nad oed gobaith y byddent yn talu'r ddyled yn ôl, ond hefyd y bydd y dyledion yn pasio ymlaen i'w plant.

**Llafur Gorfodol** Gorfodir dioddefwyr i weithio yn erbyn eu hewyllys, yn aml yn gweithio oriau hir am ychydig iawn neu ddim tâl ac mewn amodau gael o dan fygythiadau llafar neu gorfforol o drais yn eu herbyn nhw neu

eu teuluoedd. Gall hyn ddigwydd mewn nifer o sectorau o'n heconomi, o fwyngloddio i darmacio, lletygarwch a phecynnu bwyd.

**Ecsbloetiaeth rhywiol** Gorfodir dioddefwyr i berfformio gweithredoedd rhywiol camdriniol neu heb ganiatâd, ac yn erbyn eu hewyllys, megis puteindra, gwaith hebrwng a phornograffi. Tra mai merched a phlant yw mwyafrif y dioddefwyr, gall ddynion hefyd gael eu heffeithio. Yn aml caiff oedolion eu gorfodi o dan fygythiad o rym, neu gosb arall.

**Camfanteisio Troseddol** Yn aml caiff dioddefwyr eu rheoli a'u cam-drin, a'u gorfodi i mewn i droseddau megis trin canabis neu ddwyn yn erbyn eu hewyllys.

**Caethwasiaeth Ddomestig** Gorfodir dioddefwyr i gyflawni gwaith tŷ a gwaith domestig mewn aelwydydd preifat heb lawer neu unrhyw dâl, heb gael symud llawer, ychydig neu ddim amser rhydd a dim llawer o breifatrwydd, yn aml yn cysgu yn eu gwaith. Gan fod hyn yn digwydd mewn aelwydydd preifat, mae'n ffurf gudd o ecsbloetiaeth.

**Arwyddion a Symptomau**

- Gallai dioddefwyr ddangos arwyddion o gamdriniaeth gorfforol neu seicolegol, edrych yn flêr, neu edrych fel pe na baent yn bwyta digon, mae'n bosib y byddent yn ymddangos yn dawedog.

- Ni all ddioddefwyr deithio ar eu pennau eu hunain yn aml, yn ymddangos dan reolaeth, o dan ddylanwad eraill, byth yn rhyngweithio neu'n ymddangos yn anghyfarwydd â'u cymdogaeth neu'r lleoliad maent yn gweithio.

- Gall ddioddefwyr fyw mewn llety budr, gorlawn, a/neu fyw a gweithio yn yr un cyfeiriad.

- Efallai na fydd gan ddioddefwyr ddogfennau adnabod, ychydig iawn o eiddo personol a bob amser yn gwisgo'r un dillad bob dydd. Efallai na fydd y dillad maent yn ei wisgo fod yn addas i'w gwaith.

- Ychydig iawn o gyfle caiff dioddefwyr i symud yn rhydd ac efallai fydd eu dogfennau teithio wedi cael eu cadw, e.e. pasbortau.

- Gallent gael eu gollwng / casglu o'r gwaith yn rheolaidd unai yn gynnar yn y bore neu'n hwyr yn y nos.

- Gall ddioddefwyr osgoi cyswllt llygaid, ymddangos yn frawychus neu'n gyndyn o siarad gyda dieithriaid gydag ofn o orfodwyr y gyfraith am nifer o resymau, megis peidio â gwybod pwy i ymddiried ynddynt neu ble i gael cymorth, ofn allgludo, ofn trais yn eu herbyn nhw neu eu teulu.

## Atodiad 3 COD YMDDYGIAD AC ARFERION GWEITHIO DIOGEL

1. Mae'r cod ymddygiad hwn yn ddatganiad ac yn ddisgrifiad o'r safonau ymarfer proffesiynol sy'n ofynnol gan holl weithwyr y Cyngor wrth ymgymryd â'u dyletswyddau bob dydd.

2. Mae'r cod ymddygiad yn adlewyrchu'r ymarfer presennol a disgwylir i weithwyr nodi'r safonau canlynol fel y rhai maent yn anelu i'w hefelychu'n ddyddiol.

3. Rhagwelir y bydd y cod ymddygiad hwn yn darparu gwell dealltwriaeth i aelodau o ddefnydd y cyhoedd o wasanaethau'r Cyngor a ddisgwylir gan weithwyr y cyngor a'r modd mae'r cyflogwr yn cefnogi ei weithwyr i ymgymryd â gwaith yn ddiogel ac mewn modd sy'n parchu anghenion unigolion.

4. Dylai pob gweithiwr roi enghraifft dda o ran ymddygiad i sicrhau bod plant ac oedolion yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn. Mae'r canllawiau canlynol yn rhoi enghreifftiau o arfer da y mae'n rhaid eu defnyddio, ynghyd â chodau ymddygiad penodol (e.e. Cod Ymddygiad Cyngor Sir y Fflint) a allai fod yn berthnasol i rolau, gweithgareddau neu ddigwyddiadau penodol.

- Dylech bob amser fod yn agored i'r cyhoedd eich craffu pan fyddwch yn gweithio gyda phlant ac oedolion a dylech osgoi sefyllfaoedd ble mae cynghorydd, aelod o staff, gwirfoddolwr neu ddarparwr gwasanaeth gyda phlentyn neu blant neu oedolion mewn risg ar ben ei hun heb unrhyw un arall i'w arsylwi.
- Dylech ddilyn y broses ofynnol ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau e.e. digwyddiad o bwysigrwydd iechyd a diogelwch;
- Mae gan blant ac oedolion hawl i breifatrwydd, cydraddoldeb, parch ac amgylchedd diogel a chadarnhaol.
- mae'n rhaid i gynghorwyr, gweithwyr, gwirfoddolwyr a darparwyr gwasanaeth dan gontract roi blaenoriaeth i les a diogelwch y plentyn neu oedolion cyn pryderon am berfformiad.
- Os bydd plentyn neu oedolyn yn cyrraedd gweithgaredd neu wasanaeth yn dangos arwyddion neu symptomau sy'n achosi pryder i chi, mae'n rhaid i chi ymddwyn yn briodol a dilyn y gweithdrefnau a amlinellwyd yn y polisi.
- Byddwch yn ymwybodol o'r angen i sicrhau arferion diogel wrth gwrdd â phlant ac oedolion.

**DYLECH**

- Weithio yn unol â'r polisi diogelu hwn. Os bydd gennych amheuaeth, cysylltwch â'r Arweinydd Diogelu Dynodedig yn eich Portffolio.
- Gweithio mewn amgylchedd agored (e.e. dylech osgoi sefyllfaoedd preifat neu rhai na ellir eu harsylwi ac annog amgylchedd agored

e.e. dim cyfrinachau); Trin bob plentyn ac oedolyn yn deg gyda pharch ac urddas.
- Rhoi lles pob plentyn ac oedolyn yn gyntaf.
- Sicrhau pellter diogel a phriodol gyda chyfranogwyr (e.e. nid yw'n briodol cael perthynas agos gyda phlentyn neu oedolyn).
- Creu perthynas gyfartal yn seiliedig ar ymddiriedaeth sy'n rhoi grym i'r plant ac oedolion i rannu yn y broses o wneud penderfyniadau.
- Derbyn y wybodaeth fwyaf cyfredol am faterion hyfforddiant a diogelu.
- Bod yn enghraifft wych – mae hyn yn cynnwys dim ysmygu, yfed alcohol na rhegi yng nghwmni plant ac oedolion.
- Sicrhau bod offer ffotograffiaeth neu ffilmio yn cael ei ddefnyddio'n briodol a bod rhiant neu ofalwr y cyfranogwyr wedi rhoi eu caniatâd.
- Cadw cofnod yn ysgrifenedig o unrhyw anaf a gafwyd, ynghyd ag unrhyw driniaeth a roddwyd yn unol â pholisi'r Cyngor.
- Adrodd am unrhyw bryderon ar unwaith i'ch rheolwr neu eu rheolwr os yw'r cyhuddiadau wedi'u gwneud yn ei erbyn/herbyn.

**NI DDYLECH**

- Gyffwrdd na chaniatáu cyffwrdd amhriodol mewn unrhyw ffordd, defnyddio grym nac iaith amhriodol na gwneud unrhyw sylwadau rhywiol awgrymog.
- Gwneud i blentyn grio fel modd o'i r/rheoli, na defnyddio unrhyw dechnegau rheoli ymddygiad heb ei awdurdodi gan bolisïau a gweithdrefnau'r Cyngor.
- Anwybyddu cyhuddiadau a wnaed gan blentyn neu oedolyn. Dylid rhoi gwybod ar unwaith am unrhyw gyhuddiadau neu ddatgeliadau o gamdriniaeth gan blentyn neu oedolion mewn risg i'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu.
- Ymgymryd â thasgau o natur bersonol i blant neu oedolion y gallent eu gwneud dros eu hunain.
- Gwahodd na chaniatáu i blentyn neu oedolyn ddod i'ch cartref ble byddant ar ben eu hunain gyda chi.
- Mynd i ardaloedd wedi eu neilltuo'n benodol i'r rhyw arall.
- Defnyddio'r rhyngrwyd, dyfais electronig neu ffôn i gael mynediad i safleoedd pornograffi plant
- Cael mynediad at unrhyw ffurf o bornograffi plant gan gynnwys deunydd wedi'i argraffu Ymchwilio i adroddiadau o gamdriniaeth.
- Addo i gadw cyfrinachau.
- Gwneud rhagdybiaethau neu gynnig eglurhad gwahanol.
- Cysylltu â'r unigolion honedig sy'n cam-drin.
- Lledaenu gwybodaeth gyfrinachol sy'n ymwneud ag achosion unigol i unrhyw un oni bai ei fod drwy weithdrefnau adrodd cydnabyddedig.

5. Bydd unrhyw weithiwr sy'n torri unrhyw amod o'r cod ymddygiad uchod yn wynebu ymchwiliad a gallai wynebu camau disgyblu a allai arwain at ddiswyddo a'r posibilrwydd o ymchwiliad troseddol os oes yna dystiolaeth o weithgaredd anghyfreithiol.

6. Bydd gwasanaethau gwirfoddol sy’n torri’r cod ymddygiad yn cael ei wahardd ar unwaith. Os bydd yna dystiolaeth o weithgaredd anghyfreithiol, bydd enw’r gwirfoddolwr yn dod i sylw’r awdurdodau perthnasol a gallai ef/hi wynebu ymchwiliad troseddol.

**Atodiad 4 Canllawiau Arferion Da ar gyfer Cynghorwyr - Cyswllt Diogel gyda Phlant ac Oedolion mewn Risg**

1. Mae'r canllawiau hyn yn ddatganiad a disgrifiad o safonau ymddygiad a ddisgwylir gan holl aelodau o'r Cyngor wrth ddod i gysylltiad â phlant neu oedolion mewn risg *yn eu swyddi fel cynghorwyr.

2. Mae'r canllawiau hyn yn ychwanegol at, ac nid ydynt yn disodli Cod Ymddygiad Aelodau. Mae Cod Ymddygiad Aelodau yn parhau i fod yn berthnasol pryd bynnag fydd aelod yn gweithredu yn ei rôl fel aelod etholedig, a hefyd ar unrhyw adeg mewn perthynas â pheidio â chodi anfri ar y swydd neu'r Cyngor.

3. Rhai gofynion y Cod yw: - • Dangos parch i eraill a bod yn ymwybodol ohonynt
   - Mynd i'r afael â chyfleoedd cyfartal ar gyfer pawb, beth bynnag eu rhyw, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran neu grefydd
   - Peidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol heb ganiatâd
   - Peidio ag ymddwyn mewn modd a fydd yn dod ag anfri ar eich swydd neu'r Cyngor
   - Adrodd am unrhyw ymddygiad sy'n debygol o fod yn droseddol, gan aelod arall neu weithiwr arall i'r awdurdod priodol
   - Peidio â defnyddio eich safle yn amhriodol er mwyn achos mantais neu anfantais i rywun.

4. Gall Aelodau ddod i gyswllt â phlant neu oedolion mewn risg drwy eu safleoedd ar bwyllgorau neu weithgorau, neu drwy eu rolau fel aelodau lleol. Gallent hefyd ddod i gyswllt â nhw wrth gynrychioli'r Cyngor ar gyrff allanol neu gymryd rhan mewn digwyddiadau a drefnir gan y Cyngor. Mae gan bob aelod o'r Cyngor gyfrifoldeb rhianta corfforaethol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, ac mae gan bob aelod hefyd gyfrifoldeb i ddilyn arferion da ar gyfer diogelu plant ac oedolion mewn risg.

5. Nod y canllawiau hyn yw adlewyrchu'r ymarfer presennol a disgwylir i aelodau nodi'r safonau canlynol fel y rhai maent yn anelu i'w hefelychu'n ddyddiol.

6. Disgwylir fod y canllawiau hyn yn rhoi gwell dealltwriaeth i aelodau'r cyhoedd o'r hyn i ddisgwyl gan gynghorwyr pan fyddent yn dod i gyswllt â nhw.

7. Dylai pob cynghorwr roi enghraifft dda o ran ymddygiad i sicrhau bod plant ac oedolion mewn risg yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn. Mae'r canllawiau isod yn rhoi manylion o enghreifftiau o arferion da a ddylid eu defnyddio.

**DYLECH**

- Ddod yn gyfarwydd â chanllawiau a pholisïau diogelu'r Cyngor a'r gweithdrefnau presennol ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau ac ati.
- Mynychu hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion mewn risg.
- Adrodd am bryderon neu honiadau ar unwaith i'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

- Bod yn agored i graffu gan y cyhoedd bob amser wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc, a cheisio osgoi sefyllfaoedd lle rydych ar eich pen eich hun gyda phlentyn neu blant neu oedolion mewn risg, heb unrhyw un i'ch arsylwi chi.
- Parchu hawl plant ac oedolion i breifatrwydd, cydraddoldeb, parch ac urddas ac amgylchedd diogel a chadarnhaol. Ystyried lles a diogelwch y plentyn neu'r oedolyn cyn ystyriaethau eraill.
- Creu perthynas gyfartal yn seiliedig ar ymddiriedaeth sy'n rhoi grym i'r plant ac oedolion i rannu yn y broses o wneud penderfyniadau.
- Bod yn enghraifft wych i blant ac oedolion mewn risg.

**NI DDYLECH**

- Gyffwrdd na chaniatáu cyffwrdd amhriodol mewn unrhyw ffordd, defnyddio grym nac iaith amhriodol na gwneud unrhyw sylwadau rhywiol awgrymog.
- Anwybyddu honiadau a wneir gan blentyn neu oedolyn; dylid rhoi gwybod ar unwaith am unrhyw gyhuddiadau neu ddatgeliadau o gamdriniaeth gan blentyn neu oedolion i'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu.
- Gwahodd na chaniatáu i blentyn neu oedolyn mewn risg ddod i'ch cartref ble byddant ar ben eu hunain gyda chi.
- Fynd i fannau yn adeiladau'r Cyngor sydd wedi eu dyrannu'n benodol ar gyfer y rhyw arall.
- Defnyddio'r rhyngrwyd, dyfais electronig neu ffôn i gael mynediad i safleoedd pornograffi plant.
- Lledaenu gwybodaeth gyfrinachol sy'n ymwneud ag achosion unigol i unrhyw un oni bai ei fod drwy weithdrefnau adrodd cydnabyddedig.
- Ymchwilio i honiadau o gamdriniaeth.
- Cysylltu â'r camddefnyddiwr honedig.

# Adroddiad Diogelu Oedolion Gogledd Cymru

Dylid defnyddio'r ffurflen hon pan fydd achos rhesymol i amau fod unigolyn yn Oedolyn mewn Risg; "Oedolyn mewn Risg" ar gyfer dibenion y Rhan hwn, yw oedolyn sydd:

- yn profi, neu mewn perygl o, gamdriniaeth neu esgeulustod
- ag anghenion gofal a chefnogaeth (p'run ai yw'r awdurdod lleol yn cwrdd â rhai o'r anghenion hynny neu beidio), ac
- o ganlyniad i'r anghenion hynny, nid yw'n gallu amddiffyn ei hun rhag y gamdriniaeth neu'r esgeulustod, neu'r perygl ohono.

| | |
|---|---|
| Dyddiad cwblhau ac anfon y ffurflen: | Dyddiad(au)'r Digwyddiad(au) os yn hysbys: |
| Enw'r Unigolyn: | |
| Dyddiad Geni: | Rhyw: Gwryw ☐ Benyw ☐ |
| Cyfeiriad Cyfredol yr Unigolyn (nodwch gyfeiriad parhaol hefyd os gwelwch yn dda):<br><br>Os yn briodol, ariennir y lleoliad gan: | A oes unrhyw Oedolion / Plentyn eraill Mewn Perygl yn byw yn yr eiddo?<br><br>Oes ☐ ☐ Nac oes<br><br>Os oes, pa gamau gweithredu sydd wedi eu cymryd: |
| Rhif ffôn: | **Prif Grŵp Cleientiaid:** |
| Statws Priodasol: | |
| Ethnigrwydd: | |
| Iaith Ddewisol: | |
| E-bost: | |

| | |
|---|---|
| Iechyd Meddwl Unigolyn Hŷn | ☐ |
| Unigolyn Hŷn | ☐ |
| Amhariad | |



**OS YDYCH CHI'N CREDU FOD TROSEDD WEDI'I CHYFLAWNI – CYSYLLTWCH Â'R HEDDLU**

| | |
|---|---|
| A oes angen Dehonglydd?<br><br>Oes ☐ ☐ Nac oes<br><br>Os OES, rhowch fanylion: | Gweledol ☐<br>Nam ar y clyw ☐<br>Anabledd Dysgu ☐<br>Iechyd Meddwl ☐<br>Anabledd Corfforol ☐<br>Camddefnyddio Sylweddau ☐<br>Arall ☐ |
| Perthynas Agosaf:<br><br>Perthynas:<br><br>Cyfeiriad:<br><br>Rhif ffôn: | Manylion y Meddyg Teulu:<br><br>Enw'r Meddyg Teulu:<br><br>Cyfeiriad y feddygfa:<br><br>Rhif ffôn: |

**Manylion yr unigolyn y credir eu bod mewn perygl**

| | |
|---|---|
| A yw'r unigolyn **mewn perygl** o gamdriniaeth neu esgeulustod? | Ydi/Nac ydi |
| Disgrifiwch y peryglon | |
| A oes tystiolaeth fod yr unigolyn **wedi** dioddef camdriniaeth neu esgeulustod? | Oes/Nac oes |
| Disgrifiwch beth ddigwyddodd | |
| A yw'r unigolyn yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso **ar hyn o bryd**? | Ydi/Nac ydi |



**OS YDYCH CHI'N CREDU FOD TROSEDD WEDI'I CHYFLAWNI – CYSYLLTWCH Â'R HEDDLU**

| | |
|---|---|
| Disgrifiwch beth sy'n digwydd | |
| A oes gan yr unigolyn anghenion gofal a chymorth? | Oes/Nac oes |
| Disgrifiwch eu hanghenion os gwelwch yn dda | |
| A yw'r unigolyn yn gallu amddiffyn eu hunain yn erbyn y perygl o gamdriniaeth ac esgeulustod? | Ydyn/Nac ydyn |
| Os ddim, eglurwch pam na allant ddiogelu eu hunain | |

| |
|---|
| A yw'r unigolyn yn ymwybodol o'r ymholiad?<br><br>Ydi ☐ Nac ydi ☐<br><br>Os na, pam hynny? |
| A yw'r unigolyn wedi cydsynio i'r ymholiad?<br><br>Ydi ☐ Nac ydi ☐<br><br>Os ddim, pam fod yr atgyfeiriwr yn parhau â'r ymholiad? |



**OS YDYCH CHI'N CREDU FOD TROSEDD WEDI'I CHYFLAWNI – CYSYLLTWCH Â'R HEDDLU**

A oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu nad oes gan yr unigolyn y gallu meddyliol i gydsynio i/deall y pryderon a/neu'r broses?

Oes ☐ Nac oes ☐

Os oes, a roddwyd gwybod i eiriolwr am hyn?

Do ☐ Naddo ☐

Os na, pam hynny?

Manylion y teulu neu ffrind neu eiriolwr ffurfiol/anffurfiol (os yn berthnasol):

**DISGWYLIR EICH BOD WEDI TRAFOD YR ADRODDIAD DIOGELU HWN Â'R UNIGOLYN NEU EU HEIRIOLWR A'U BOD YN YMWYBODOL EICH BOD YN RHOI GWYBOD AM Y PRYDER I'R GWASANAETH GOFAL CYMDEITHASOL I OEDOLION. OS NAD YDYCH WEDI GWNEUD HYNNY, NODWCH PAM OS GWELWCH YN DDA:**

2. Manylion y gamdriniaeth honedig

Math o Gamdriniaeth Honedig (ticiwch y blychau perthnasol)



| | |
|---|---|
| Ariannol/Materol | ☐ |
| Esgeulustod | ☐ |
| Corfforol | ☐ |
| Rhywiol | ☐ |
| Emosiynol/Seicolegol | ☐ |

Disgrifiwch y gamdriniaeth neu'r esgeulustod honedig: (map corff)

| | |
|---|---|
| | |
| Ers pryd mae'r gamdriniaeth honedig wedi bod yn digwydd? | Yn lle ddigwyddodd y gamdriniaeth honedig? |
| Pryd ddigwyddodd y gamdriniaeth honedig? | |
| Pa mor aml ac i ba raddau mae'r gamdriniaeth wedi bod yn digwydd? | |
| Beth yw eich barn am yr effaith mae'r gamdriniaeth yn ei chael ar yr unigolyn? | |
| Pa gamau sydd wedi cael eu cymryd i ddiogelu/amddiffyn yr unigolyn a gan bwy? (Dylid cynnwys sut fydd y peryglon yn cael eu rheoli, pwy arall sy'n gwybod am hyn – gan gynnwys asiantaethau statudol, Meddyg Teulu, yr Heddlu, ac ati.): | |



**OS YDYCH CHI'N CREDU FOD TROSEDD WEDI'I CHYFLAWNI – CYSYLLTWCH Â'R HEDDLU**

| | |
|---|---|
| <br>Amlygwch unrhyw anafiadau corfforol os gwelwch yn dda. |  |

| |
|---|
| **Beth yw barn, dymuniadau a theimladau'r unigolyn ynghylch y Pryder Diogelu? (Dylid cynnwys unrhyw gamau y maent wedi'u cymryd neu unrhyw gamau yr hoffai iddynt gael eu cymryd):** |

**3. Gwybodaeth ynghylch y sawl yr honnir eu bod yn gyfrifol am y gamdriniaeth:**

| Anhysbys ar hyn o bryd: ☐ | |
|---|---|
| Enw: | Cyfeiriad: |
| Rhif ffôn: | Dyddiad<br>Geni: |



**OS YDYCH CHI'N CREDU FOD TROSEDD WEDI'I CHYFLAWNI – CYSYLLTWCH Â'R HEDDLU**

| | |
|---|---|
| Oedran: | Perthynas â'r Dioddefwr Honedig: |
| A yw'r unigolyn yn meddu ar y gallu i ddeall eu gweithredoedd?<br><br>Ydi ☐ ☐ Nac ydi Ddim yn siŵr ☐ | |
| Cyflogwr: (os yw'n weithiwr cyflogedig) | |
| A yw'r cyflawnwr honedig yn darparu Gofal a Chymorth i'r unigolyn?<br><br>Ydi ☐ ☐ Nac ydi Ddim yn siŵr | |
| A oes gan y cyflawnwr honedig unrhyw anghenion gofal a chymorth?<br><br>Oes ☐ ☐ Nac oes Ddim yn siŵr ☐ | |
| A yw'r cyflawnwr honedig yn ymwybodol o'r atgyfeiriad?<br><br>Ydi ☐ ☐ Nac ydi Ddim yn siŵr ☐ | |

**Sylwer: Os oes mwy nag un cyflawnwr honedig wedi'u nodi, a fyddech cystal â nodi'r manylion yn Adran 7 os gwelwch yn dda.**

**4. Gwybodaeth ynghylch y sawl a fu'n dyst i'r digwyddiad(au):**

| | |
|---|---|
| Enw: | Cyfeiriad: |
| Rhif ffôn: | Perthynas â'r Dioddefwr (os o gwbl): |

**Sylwer: Os oes mwy nac un person wedi tystio i'r digwyddiad(au), rhowch fanylion yn Adran 7 os gwelwch yn dda.**

**5. Ynghylch yr unigolyn cyntaf i roi gwybod am y pryder:**

| | |
|---|---|
| Enw: | Cyfeiriad: |
| Rhif Ffôn: | Swydd/Perthynas: |
| Dyddiad/Amser yr adroddiad: | |

| | |
|---|---|
| A yw'r atgyfeiriwr yn dymuno aros yn ddienw?<br><br>Os ydi, nodwch pam: | Ydi ☐ Nac ydi ☐ |

**6. Cwblhawyd y ffurflen hon gan:**

| | |
|---|---|
| Enw: | Amser/dyddiad cwblhau'r ffurflen: |
| Asiantaeth/Cwmni: | Swydd: |
| Rhif ffôn: | Cyfeiriad e-bost: |
| **Lle bo'n briodol, manylion y rheolwr atebol sy'n cydlofnodi:** | |
| Enw: | Swydd: |
| Amser/dyddiad y cydlofnodi: | Cyfeiriad e-bost: |

**7. Gwybodaeth ychwanegol**

| |
|---|
| |

Anfonwch y ffurflen hon 'at sylw BRYS' UN o'r canlynol os gwelwch yn dda:

| | |
|---|---|
| Tîm Mynediad Cwsmer Conwy | lles@conwy.gov.uk |
| Tîm Ymateb Cychwynnol Wrecsam | irt@wrexham.gov.uk |
| Tîm Cyswllt Cyntaf, Sir y Fflint | ssduty@flintshire.gov.uk |
| Tîm Cynghori ac Asesu Oedolion Gwynedd | cynghoriasesuoedolion@gwynedd.llyw.cymru |
| Un Pwynt Mynediad Sir Ddinbych | spoa@denbighshire.gov.uk |
| Sir Fôn – Tîm Dyletswydd Gwasanaethau Oedolion | asduty@ynysmon.gov.uk |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | BCU.AdultSafeguarding@wales.nhs.uk |

<table>
<tr><td colspan="6">Dyddiad Cadarnhau: 30 Mawrth<br>2017</td></tr>
<tr><td colspan="6">Dyddiad adolygu:  30 Mawrth 2018</td></tr>
<tr><td>Fersiwn</td><td>Dyddiad Cwblhau Ymgynghoriad</td><td>Disgrifiad o’r Rheswm dros Newid</td><td>Awdur</td><td>Awdurdodi</td><td>Dyddiad Cyhoeddi</td></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
</table>

Atodiad 6.

# 10 Awgrym Gwych ar gyfer Llunio Adroddiad Diogelu i Oedolion

**Dim ond ar gyfer rhoi gwybod i'r gwasanaethau cymdeithasol am amheuaeth o gamdriniaeth neu esgeulustod yn achos oedolyn mewn perygl y dylid defnyddio'r ffurflen hon. Os ydych yn dymuno rhoi gwybodaeth arall i'r gwasanaethau cymdeithasol, neu i wneud cais am wasanaethau neu gefnogaeth, cysylltwch â'r adran gwasanaethau cymdeithasol priodol.**

**Mae'n bwysig eich bod yn rhoi cymaint o wybodaeth â phosib ar y ffurflen adroddiad. Os nad ydych yn rhoi cyfrif llawn o'r hyn sydd wedi digwydd, gallai'r broses o ddiogelu'r oedolyn mewn perygl gael ei gohirio.**

**Dylai'r deg awgrym canlynol fod o gymorth i chi wrth i chi gwblhau'r adroddiad:**

1. Cofnodi'r wybodaeth sylfaenol yn gywir:
   - Enw, cyfeiriad a dyddiad geni'r oedolyn mewn risg;
   - Manylion Cyswllt Cyfeiriad a Rhif Ffôn.
   - Rhyw a tharddiad ethnig yr oedolyn mewn perygl;
   - Anghenion Gofal a Chefnogaeth yr oedolyn mewn perygl;

2. Eglurwch pwy ydych chi, eich rôl a'ch perthynas â'r person sydd dan sylw yn yr atgyfeiriad.

- **Cynhwyswch leoliad presennol yr oedolyn mewn perygl a pha gamau sydd wedi eu cymryd er mwyn sicrhau diogelwch yr oedolyn hwnnw.**

3. Nodwch ffynhonnell eich tystiolaeth a byddwch yn eglur o ran yr hyn sydd yn ffaith a'r hyn sydd yn farn.
   - A ddaw'r dystiolaeth o nodiadau, o brofiad llaw gyntaf yn eich rhyngweithiad â'r person, o bryderon a godwyd gan weithwyr proffesiynol eraill neu o wybodaeth trydydd parti? Gall fod yn gyfuniad o'r holl ffynonellau uchod.
   - Dyfynnwch yr hyn y mae'r oedolyn mewn perygl wedi ei ddweud wrthych yn union.
   - Er enghraifft, peidiwch ag ysgrifennu 'Mae'r oedolyn mewn perygl yn dweud fod ei bartner yn ymddwyn yn gorfforol gamdriniol tuag ato'. Dyfynnwch union eiriau'r oedolyn mewn perygl: "fe wnaeth fy mhartner fy ngwthio i lawr y grisiau ddydd Mawrth diwethaf, cyn fy llusgo ar hyd y llawr gerfydd fy ngwallt".

4. Byddwch yn gryno a defnyddiwch frawddegau byrion. Esboniwch derminoleg feddygol a goblygiadau hyn i'r oedolyn mewn perygl, gan ei bod yn bosib na fydd gan y sawl sy'n darllen yr atgyfeiriad unrhyw gefndir meddygol.
   - Er enghraifft, rydych yn gwneud atgyfeiriad Diogelu Oedolyn am eich bod wedi eich hysbysu nad yw gofalwyr Richard wedi bod yn rhoi iddo ei feddyginiaeth thyroid. Gallech ysgrifennu: 'Mae gan Richard thyroid tanweithgar, ac mae angen iddo gymryd y feddyginiaeth sydd ar ei bresgripsiwn (Levothyroxine) yn ddyddiol. Os nad yw'n cael ei feddyginiaeth yn ddyddiol, gallai gael ei daro yn wael iawn. Mae gan Richard anabledd dysgu ac mae'n ddibynnol ar ei ofalwyr.

5. Disgrifiwch yr hyn sydd wedi digwydd mewn cymaint o fanylder â phosib, a nodwch a oedd unrhyw dystion.

6. Byddwch yn eglur am y math o gamdriniaeth sydd wedi digwydd, yn eich tyb chi.

7. Cynhwyswch gymaint â phosib o fanylion am y cyflawnwr/wyr.

**Peidiwch â chysylltu â'r cyflawnwr eich hunain**

8. Ystyriwch a oes unrhyw un arall mewn perygl

   - Er enghraifft, plant neu oedolion mewn perygl eraill. Rhowch wybod am hyn a nodwch pwy ydynt.
   - Ystyriwch a oes angen i chi wneud Atgyfeiriad Diogelu Plant.

9. Nodwch a yw'r oedolyn mewn perygl yn ymwybodol o'r pryder ynghylch diogelu, a'r hyn yr hoffai'r oedolyn mewn perygl ei weld yn digwydd.

   - Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid peidio dweud wrth yr oedolyn mewn perygl (neu eu teulu / pŵer atwrnai os yw hynny'n briodol mewn achosion lle nad yw'r galluedd gan yr oedolyn mewn perygl) am eich pryderon. **Cofiwch – Mae Diogelu yn broses a ddylai gael ei gyflawni GYDAG** oedolyn mewn perygl, yn hytrach na'i orfodi ARNYNT. Ceir eithriadau i hyn os, trwy ddweud wrth yr oedolyn mewn perygl am eich pryder, eich bod yn eich rhoi eich hunain neu'r claf mewn perygl o niwed.

10. Nodwch yn eglur yn eich nodiadau eich hun pa gamau gweithredu a gymerwyd.

## Atodiad 7 Awgrymiadau Gwych ar gyfer cofnodion da

- Gwybodaeth ffeithiol e.e. amseroedd, dyddiadau, enwau, tystion
- Holl gysylltiadau h.y. wyneb yn wyneb, ffôn, cyfatebiaeth
- Cyswllt ag asiantaethau eraill
- Y penderfyniadau a wnaed
- Rhaid i'r cofnodion fod yn glir, ac yn gofnod cywir o'r hyn ddywedodd pobl gan ddefnyddio eu geiriau eu hunain
- Aros yn wrthrychol
- Rhestru camau yn y drefn gywir
- Nodi dyddiad a llofnod yn eich cofnod
- Defnyddio beiro belenbwynt - ffefrir inc du
- Ysgrifen ddarllenadwy
- Cadw copi ar gyfer cyfeirio ato yn y dyfodol

## Beth i'w gofnodi

- Beth a arsylwyd
- Beth a glywyd
- Beth a ddatgelwyd/ ddywedwyd wrthych chi
- Dyddiad y digwyddiad
- Amser y digwyddiad
- Pobl sy'n gysylltiedig
- Lleoliad
- Llofnodi a dyddio'r cofnod

## Dylid rhannu gwybodaeth pan fydd:

- Risg i unigolyn neu eraill
- Cyfraith wedi ei dorri

## Pawb i rannu gwybodaeth

- Dylech gael caniatâd os yw'n bosibl, os nad, dylech roi gwybod i'r unigolyn y bydd rhaid i chi ddweud wrth rywun
- Ar sail angen gwybod yn unig
- Rhannu'n ddiogel - dim ffacs, negeseuon ar beiriannau ateb. Os nad allwch chi ddilysu hunaniaeth yr unigolyn, dim dros y ffôn
- Cofnodi'r camau gweithredu
- Os ydych yn ansicr, gofynnwch i'r rheolwr

## Deddf Diogelu Data

Mae'r gyfraith yn disgwyl fod yr holl gofnodion yn:

- Gywir, onest a theg
- Yn cael ei gadw'n ddiogel
- Bod â diben gwirioneddol ar gyfer ei gadw
- Yn berthnasol i'r pwrpas

## Atodiad 8 Llwybr Dioddefwyr Sir y Fflint

Defnyddiwr Gwasanaeth

Unrhyw weithiwr proffesiynol/sefydliad sydd â Phryder am fasnachu neu gaethwasiaeth mewn perthynas â phlentyn/oedolyn

Pe ymddangosir fod yr unigolyn mewn risg uniongyrchol o niwed sylweddol, ffoniwch 999. Yn fuan wedyn bydd yr Heddlu yn cysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac unrhyw gysylltiadau cymorth amlasiantaeth lleol

Unigolion dan amheuaeth o gael eu masnachu ( Plentyn neu Oedolyn )

Plant
(Gan gynnwys plant y mae eu hoedran yn destun dadl )

Tîm Cyswllt Cyntaf Plant
01352 701000
Gofal Cymdeithasol Plant i asesu diogelwch uniongyrchol plant
Tu allan i oriau
Tîm Dyletswydd Argyfwng 03450533116

Atgyfeiriad Amddiffyn Plant wedi'i gwblhau (gweler Llawlyfr Gweithredol Cymru Gyfan Plant wedi'u Masnachu)

Atgyfeiriad ICTA i gael ei wneud

Ystyriaeth o atgyfeiriad i'r NRM

Oedolion

Tîm Un Pwynt Mynediad
01352 803444
Gofal Cymdeithasol Oedolion i asesu Diogelwch uniongyrchol oedolion
Tu allan i oriau
Tîm Dyletswydd Argyfwng
03450533116

Mynediad at gymorth ar unwaith trwy BAWSO – I gynnwys ystyriaeth i le diogel

Ystyriaeth ar gyfer atgyfeiriad i'r NRM

Plant ac Oedolion i gael eu hasesu (ac os yw'n briodol) cael y cyfle o Ofal a Chymorth a datblygu cynllun gweithredu yn unol â'r angen a chanllaw Caethwasiaeth Fodern

**Atodiad 9 CYNGOR SIR Y FFLINT**

**PANEL DIOGELU CORFFORAETHOL**

**CYLCH GORCHWYL**

**1. Pwrpas**

1.1 Sicrhau fod “Diogelu” yn fusnes i bawb ymhob Gwasanaeth o fewn y Cyngor gan weithio ar y rhagosodiad fod “Diogelu” yn gysyniad ehangach nac amddiffyn plant ac oedolion ac yn delio gyda hyrwyddo:

- Iechyd corfforol, emosiynol a meddyliol;
- Diogelu rhag niwed ac esgeulustod;
- Addysg, hyfforddiant a hamdden;
- Cyfraniad tuag at gymdeithas • Lles cymdeithasol ac economaidd.

1.2 I sicrhau fod gan y Cyngor prosesau sicrwydd a rheolaeth effeithiol mewn lle ar gyfer diogelu plant ac oedolion mewn risg ac yn cyflawni ei ddyletswyddau corfforaethol ac mewn partneriaeth ag asiantaethau statudol eraill.

1.3 I ystyried materion a gyfeirir at y Panel o fewn ei gylch gorchwyl ac i yrru gwelliannau mewn diogelu ymlaen.

**2. Cyfrifoldebau’r Panel**

2.1 Cymryd trosolwg o gyfrifoldebau’r Cyngor (ac asiantaethau partner) tuag at ddiogelu ac archwilio ffyrdd y gall y Cyngor gyfan ac asiantaethau partner sicrhau diogelwch a lles plant ac oedolion mewn risg yn yr ardal.

2.2 Sicrhau fod y Cyngor a’i adrannau yn cydymffurfio’n llawn gyda deddfwriaeth a pholisi sy’n ymwneud â diogelu.

2.3 Sicrhau fod trefniadau cydweithio da rhwng adrannau’r Cyngor ac asiantaethau partner, gan gynnwys trefniadau gweithio gyda Byrddau Diogelu Gogledd Cymru.

2.4 Monitro a chraffu ar berfformiad gweithgareddau diogelu ar draws y Cyngor gan gefnogi arferion da a herio a dal arferion gwael i gyfrif.

2.5 Sicrhau bod arferion cadarnhaol yn cael eu cynnal, bod gwersi’n cael eu dysgu a newidiadau’n cael eu gwneud yn y meysydd sydd angen gwella.

2.6 Datblygu a goruchwylio gweithrediad polisi diogelu ar draws y Cyngor.

2.7 Datblygu a goruchwylio gweithrediad Cynllun Hyfforddi a Strategaeth Datblygu’r Gweithlu Diogelu Corfforaethol

2.8 Datblygu a goruchwylio gweithrediad rhaglen waith flynyddol ar gyfer y Panel

2.9 Cynnal trosolwg strategol o holl ddatblygiadau, cynlluniau, polisïau a strategaethau ar gyfer diogelu a gwneud argymhellion priodol ar gyfer camau gweithredu.

2.10 Llunio adroddiad diogelu blynyddol (a fydd yn cysylltu â gofynion ar gyfer adroddiad blynyddol drwy Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru)

2.11 Sicrhau fod prosesau recriwtio diogel yn cael eu gweithredu ac y glynir atynt ar draws y Cyngor.

2.12 Sicrhau fod materion diogelu thematig yn cael eu trin yn weithredol ar draws y Cyngor e.e. masnachu pobl / caethwasiaeth fodern / cam-fanteisio'n rhywiol ar blant.

2.13 Sicrhau fod Aelodau'n cael y newyddion diweddaraf yn rheolaidd ar faterion sy'n ymwneud ag arferion diogelu

**3. Aelodaeth**

3.1 Bydd aelodau'r grŵp yn cynnwys:

- Prif Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol (Cadeirydd)
- Prif Swyddog, Addysg ac Ieuenctid (Is-gadeirydd)
- Uwch Reolwr Diogelu'r Gwasanaethau Cymdeithasol
- Arweinwyr Diogelu Dynodedig o bob Portffolio'r Cyngor
- Cynrychiolydd Adnoddau Dynol y Gwasanaeth
- Gwasanaethau Corfforaethol
- Aelod etholedig

3.2 Dan amgylchiadau eithriadol rhaid nod cynrychiolydd portffolio i fynychu cyfarfod os nad all y cynrychiolydd dynodedig fynychu.

3.3 Gall aelodau ychwanegol gael eu cyfethol ar y Panel gyda chymeradwyaeth y Cadeirydd.

3.4 Yn ôl yr agenda, gall unigolion nad ydynt yn rhan o'r Panel gael eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd i drafod a/neu gyflwyno eitemau allweddol.

4. Trefniadau Llywodraethu

4.1 Bydd y grŵp yn cwrdd bob chwarter (neu'n fwy aml os oes angen)

4.2 Bydd cymorth busnes yn cael ei ddarparu drwy'r Gwasanaethau Corfforaethol

4.3 Bydd Arweinwyr Diogelu Dynodedig yn gyfrifol am ledaenu a chael gwybodaeth i'w meysydd gwasanaeth ac yn gyfrifol am gwblhau camau gweithredu a thasgau yn eu meysydd gwasanaeth.

4.4 Bydd y grŵp diogelu corfforaethol yn adrodd ar risgiau allweddol, problemau a pherfformiad i'r Tîm Prif Swyddogion bob chwarter, a bydd yn gweithredu fel sianel gorfforaethol i'r Byrddau Diogelu Gogledd Cymru Oedolion a Phlant.

4.5 Adrodd i'r Pwyllgorau Craffu a'r Cabinet o Bydd Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol A'R Cabinet yn derbyn gwybodaeth yn ymwneud â gwaith y Panel Diogelu Corfforaethol drwy'r Adroddiad Blynyddol.

Adroddiad diogelu. Bydd hyn yn darparu cyfle i Aelodau graffu a herio

- Bydd adroddiadau yn nodi'r gwaith penodol o fewn Portffolios unigol yn cael eu hadrodd drwy'r Pwyllgor Craffu perthnasol yn unol â'r rhaglen gwaith i'r dyfodol cytunedig. o Bydd Aelodau o'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet yn derbyn gwybodaeth o ran rhaglen waith y Grŵp Diogelu Corfforaethol, y cynnydd yn erbyn y rhaglen waith hon a'r prif negeseuon sy'n deillio o'r trefniadau sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad;
- Bydd sylwadau'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet yn cael eu hystyried wrth benderfynu ar flaenoriaethau'r Panel mewn rhaglenni gwaith yn y dyfodol.